

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 519 · Ebrill 2021 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

Dathlu Daucanmlwyddiant Bethesda - y Blynyddoedd Cynnar

Mae'n anodd dychmygu Dyffryn Ogwen heb bentref mawr Bethesda yn llenwi ei ganol, yn ardal gwbl wledig gydag ond ychydig ffermydd a thyddynnod yn britho'r fro, megis Cilfodan, Pant y Ffrydlas, Garneddwen, Abercaseg, Tyddyn Gaseg a nifer eraill.

Daeth lôn bost newydd Thomas Telford drwy'r dyffryn yn 1820, a'r adeilad cyntaf a godwyd oedd tafarn y *Star*. Rhyngddi a'r afon cafodd y tir a oedd ymhlwm wrthi yr enw Cae Star (sy'n faes parcio heddiw). Ar yr ochr uchaf i'r dafarn, cododd crydd o'r enw Richard Jones dŷ a gweithdy. Cafodd yr Annibynwyr ddarn o dir o'r enw Wern Uchaf yn ymyl tafarn y *Star* i adeiladu capel bychan, a symud yno o gapel Tros-y-ffordd ger y chwarel yn 1820. Rhoddwyd yr enw 'Bethesda' ar y capel, enw Hebraeg o'r Beibl sy'n golygu 'Tŷ Trugaredd', gan ddilys

patrwm llefydd fel Bethel, Nebo, Nasareth, Golan, Carmel a llu eraill. Mabwysiadwyd yr enw 'Bethesda' gyntaf, mae'n debyg, yn llyfr Eglwys y Bedyddwyr ym Mehefin 1821 ar y clwstwr tai a oedd yn codi o gwmpas y capel.

Erbyn 1822 roedd yr enw wedi ei dderbyn yn swyddogol i gofrestrau Eglwys y Plwyf (Llanllechid) lle cofnodir claddedigaeth 'Elin Williams, Cae Garw, Bethesda'. Fe wreiddiodd yr enw 'Bethesda' wedi iddo gael ei dderbyn i gofrestrau'r plwyf er y bu rhyw gyffro cudd dros ei newid yn 1853 pan sefydlwyd Bwrdd Lleol i'r ardal. Roedd rhywrai, tan yr enw mawreddog 'Associated Peersesses and Ladies of Penrhyn Quarry', yn gofidio am 'Y gwallgofrwydd Hebreig yn y Dywysogaeth' ac yn awgrymu 'Tre' Ogwen' neu 'Tre' Pennant' yn lle 'Bethesda'. Fodd bynnag, methiant fu'r ymgais. Roedd yr enw 'Bethesda' wedi'i sefydlu.

(seiliedig ar addasiadau o'r bennod 'Pentref Newydd' yn *Cerrig Môn* a'r bennod 'Fy Ardal' yn *Ar Lwybrau'r Gwynt*, dwy gyfrol gan Ernest Roberts.)

Os ydych am ddarllen mwy am hanes dechreuad a datblygiad cynnar Bethesda, ewch i wefan 'Hanes Dyffryn Ogwen' (<https://hanesydyffrynogwen.wordpress.com> neu 'Hanes Dyffryn Ogwen') lle mae erthygl gan Dr John Llywelyn Williams dan y teitl 'Pen Blwydd Hapus Bethesda!' (Mawrth 2020).

Mae hon yn wefan eithriadol o werthfawr

efo llu o erthyglau diddorol ar hanes pob agwedd ar fywyd yr ardal. Yr erthyglau diweddaraf ar y wefan ydi 'Tapiau Dŵr Mynydd Llandygái', 'Y *Conservative Club* yn Rhes Penrhyn', 'Ysgolion Cynradd Llanllechid', 'Ynni Ogwen' a 'Medal y D.C.M.'

cymorth cristnogol

Cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol eleni rhwng dydd Sul, Mai 9 a dydd Sadwrn, Mai 16. Yn ôl yr arfer, bydd yr amlenni bach coch yn cael eu dosbarthu i bob tŷ yn ystod yr wythnos yma, OND, oherwydd y cyfyngiadau presennol, ni fyddant yn cael eu casglu'n ôl. Yn hytrach, gofynnir yn garedig i drigolion Bethesda eu rhoi trwy ddrws Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26, Stryd Fawr. Bydd trefniadau amgen ar gyfer pentrefi eraill y Dyffryn.

Gobeithir cynnal Gwasanaeth Undebol **nos Sul, Mai 9**, am 5 o'r gloch, yng Nghapel Jerusalem. O dan ofal Y Parchedig John Pritchard. Croeso cynnes i bawb.



Y Stryd Fawr a Chapel Bethesda
('Capel Mawr' fel y'i gelwid; Arafa Don heddiw)



www.llaisogwan.com



@Llais_Ogwan

Panel Golygyddol**Derfel Roberts**

(Ffôn 600965)

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606)

rml42@live.co.uk

Swyddogion**CADEIRYDD:****Dewi A Morgan**, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:**Neville Hughes**, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:**Gareth Llwyd**, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:**Godfrey Northam**, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ (Ffôn 600872)

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:**Owen G Jones**, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygyddion

Golygydd rhifyn y mis hwn gan

Derfel Roberts.Y golygydd ym mis **Mai** fydd**Lowri Roberts**, 8 Pen y Ffriddoedd,

Tregarth, Bangor, LL57 4NY.

01248 600490.

E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Mai**, os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD

UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y

DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS

Cyflwyno ysgythriad o englyn o'i waith ei hun i fardd lleol



Yn y llun uchod gwelir Dilwyn Owen, y bardd o Erw Las, yn derbyn englyn o'i waith ei hun gan yr ysgythrwr, Alun Davies. Lluniodd Dilwyn yr englyn fel teyrnged i Blas Ogwen a bydd ysgythriad arall o'r englyn yn mynd i fyny ar y mur yn y cartref i'r henoed yn y dyfodol agos.

Plas Ogwen

Un gaer yn llawn o gariad – a meini

Amynedd ei gwedd;

Mae gofal i bob galwad

Gan gwmni sy'n gloywi'n gwlad.

*Dilwyn Owen***Apêl Arbennig – Ebrill 2021**

£40.00 Dr. Elwyn a Mrs. Deilwen Hughes, Bethel.

£8.00 Mrs. Doris Shaw, Maesgeirchen.

£25.00 Di-enw, Ynys Môn.

Diolch yn fawr.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAG**Llais Ogwan ar CD**

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post**Gwledydd Prydain – £22****Ewrop – £30****Gweddill y Byd – £40**

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)

Croeso adref

Mae'n dda cael clywed bod Gwen Pritchard, Fferm Parc, adref yn ei chartref ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Dwi'n siŵr dy fod wrth dy fodd adref o'r diwedd a'r teulu yn falch o dy gael o'u cwmpas eto. Gobeithio y byddi'n cryfhau'n ddyddiol Gwen ac y bydda ni'n dy weld o gwmpas Gerlan yn fuan.

Brysiwch wella

Gyrrwn ein cofion at Jean Doyle sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn teimlo'n gryfach Jean a gyrrwn ein cofion atoch i Giltwillan.

Mae Dewi Owen Rallt Isaf yn parhau i fod yn Ysbyty Gwynedd ers sawl wythnos bellach. Mae sawl un yn dweud eu bod yn colli eich gweld wrth i chi fynd am dro. Cofion cynnes atoch Dewi a gobeithio y cewch chi ddod adra yn fuan.

Caban Gerlan

Wrth i gyfyngiadau lacio dros yr wythnosau a misoedd nesaf (gobeithio), bydd yn dda cael gweld y Caban yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Os oes gennych chi syniadau am ddsbarthiadau, gymdeithasau neu unrhyw brosiectau cymunedol, byddai'r Pwyllgor yn hoffi clywed gennych chi.

Dim ond criw bach ohonom ni sydd ar y Pwyllgor bellach felly, os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn ymuno efo ni er

Penblwydd priodas

Ydych chi'n nabod y cwpwl ifanc yma sydd yn dathlu pen-blwydd priodas arbennig?



Hoffai'r teulu i gyd ddymuno'n dda iddynt ar eu pen-blwydd priodas rhuddem. Llongyfarchiadau mawr i chi ar 40 mlynedd o fywyd priodasol. Gobeithio bod chi wedi cael dathlu 'chydig er gwaethaf y cyfnod clo.

mwyn gwarchod a datblygu'r ganolfan, plis cysylltwch efo Caren ar 602509. Cadwch yn ddiogel bawb.

Y Wern

Mae'n dda cael gweld bod llwybr gwastad bellach wedi ei gwblhau o waelod y Wern ym Mraichmelyn i fyny i Gwernydd.

Yn anffodus, mae graffiti wedi ei beintio ar wyneb y graig yno – mae'n biti gweld y creigiau wedi eu hanharddu. Byddai'n dda gallu trefnu iddynt gael eu glanhau mewn rhyw ffordd mor fuan â phosib.

Archifau Gwynedd yn ail-agor

Mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd yn paratol ar gyfer croesawu'r cyhoedd yn ôl i'w hadeiladau yn fuan.

Bydd Archifdy Caernarfon yn ail-agor ar Ddydd Mercher, 14 Ebrill.

Dywedodd Lynn Francis, Prif Archifydd Cyngor Gwynedd: "Rydan ni'n edrych ymlaen at weld pobl nôl yn ein harchifdai. Er mwyn diogelu defnyddwyr a staff, bydd trefniadau diogelwch yn eu lle ac rydym yn ddiolchgar o flaen llaw i bobl am eu dealltwriaeth a'u hamynedd wrth i ni ailgyflwyno'r gwasanaeth gwerthfawr yma."

Bydd angen archebu dogfennau o flaen llaw a bydd system apwyntiadau yn unig i fynychu'r archifdai. Bydd angen diwrnod neu fwy o rybudd fel bod modd estyn y dogfennau a sicrhau fod y dogfennau hynny ar gael.

Gellir archebu deunydd drwy bori drwy'r catalog ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru - os ydych yn ansicr pa ddogfennau yr ydych eu hangen, gallwch gysylltu a gallwn gynnig ein cymorth. Neu os nad ydych yn gallu ymweld mae croeso i chi gysylltu gyda'r Archifdai i drafod gwasanaethau eraill.

Er mwyn trefnu apwyntiad i fynychu'r archifdai, cysylltwch drwy e-bostio archifau@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio:

Archifdy Caernarfon (01286) 679 095

Rhoddion i'r Llais

£100.00 Er cof am Llewelyn Morris Jones, 2 Cae Gwigin, Talybont.

£350.00 Cyngor Cymuned Llandygai.

£400.00 Cyngor Cymuned Bethesda.

Diolch yn fawr

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a rwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Cylch Meithrin Mynydd Llandegai



Mae Cylch Meithrin Mynydd Llandegai wedi cael dosbarth allanol newydd yn ddiweddar, yn dilyn derbyn grant gan y Mudiad Meithrin. Yn ogystal, fe wnaeth Pete Ranstead, Cadeirydd Cylch Meithrin Mynydd Llandegai, drefnu a gosod helpa i blant yr ardal ym Mharc y Bwlch er mwyn codi arian i gyfrannu tuag ato.

'Wild Elements' wnaeth adeiladu'r dosbarth, ac mae'r plant wrth eu boddau yn chwarae a dysgu ynddo ym mhob tywydd! Mae hwn yn adnodd gwerthfawr iawn i blant yr ardal.

Hoffai'r Cylch Meithrin ddiolch i'r Ysgol am y defnydd o'r tir, y Mudiad Meithrin, Wild Elements, a hefyd unrhyw un sydd wedi cyfrannu.

Plant Cylch Meithrin Mynydd Llandygai yn eu dosbarth allanol newydd.

Mynydd Llandygai

Iona Rhys, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan
(602863) ionarhys@yahoo.co.uk

Ffion Jones, 1 Llwybr Main
Ffiff22@hotmail.com

Llongyfarchiadau

Yn dilyn llwyddiant arddangosfa deithiol Trelar/Trailer gan yr artist Gareth Griffith o Lwybr Main, y mae bellach modd gweld ei waith yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Cafodd gwaith Gareth lwyfan drwy Ogledd a Chanolbarth Cymru gyda'r daith yma ac mae ganddo hefyd gasgliadau cyhoeddus i'w gweld yn y Southbank yn Llundain, Oriol Walker yn Lerpwl ond dyma ei anrhydedd mwyaf. Gwych Gareth a llongyfarchiadau enfawr ar y gwaith.

Cyngor Cymuned: Mae Cyngor Cymuned Llandygai a Cyng. Dafydd Owen, y Cynghorydd Sir, wedi bod yn cyfathrebu gyda Chyngor Gwynedd ers peth amser am y problemau gor-yrru ym Mynydd Llandygai. Y diweddaraf yw bod y Cyngor Sir wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am grant i wneud y camau gweithredu canlynol:

1. Cyflwyno twmpathau
2. Adolygu a newid y ddarpariaeth golau stryd
3. Adolygu a newid arwyddion traffig
4. Cyflwyno marciau ffyrdd
5. Creu astudiaeth dichonoldeb i edrych ar y posibilrwydd o greu llwybr troed ar ymyl y ffordd sy'n cysylltu Mynydd Llandygai a'r Ysgol.

Rydym yn aros i weld os bu'r cais yma'n llwyddiannus.

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Llun a Mawrth - wedi cau

Mercher - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

01248 602537



Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)


Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Cartref newydd

Dymuniadau gorau i Carwyn ac Elin yn eu cartref newydd yn Rhes Mostyn Bethesda. Pob lwc i'r ddau ohonoch.

Geni

Llongyfarchiadau i Angharad ac Andrew, Pantglas, ar enedigaeth eu merch fach Begw Elen. Da hefyd gweld bod gan Andrew ei raglen.



Nain

Llongyfarchiadau i Lester Bath, Ffordd Ffrydlas, ar yr achlysur hapus o ddod yn nain am y tro cyntaf pan anwyd Arianwen Haf, merch fach i Bethan a Wil.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Jackie Williams, Glan Ffrydlas, yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl yn Perth Awstralia.

Penblwydd Arbennig

'Roedd 7 Mawrth yn ddiwrnod pwysig i Mr. Jackie Williams, Glan Ffrydlas, gan ei fod yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi.

Rhaglen ar S4C

Braf oedd gweld un o bobl Pant Glas yn ymddangos ar ei raglen ei hun ar S4c. Mae Andrew, sef y Welsh Whisperer, yn ymweld â chymunedau Cymraeg a chael cyfarfod a sgwrsio gyda'r trigolion.

Marwolaethau

Mrs. Eilyr Tonwen Morie Taylor
Ar 3 Mawrth, yn ei chartref, 11 Glanrafon, bu

farw Mrs. Eilyr Tonwen Morie Taylor (Lil) yn 72 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Clarry Taylor, mam garedig i Barry, David a Don, a mam yng nghyfraith i Susan a Cathryn. Nain hoffus i Beverley a hen nain i Cian, Kieran a Faye. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlogsgfa Bangor, ddydd Mawrth, 9 Mawrth. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich profedigaeth.

Mrs. Margaret Heddwen Jones

Yn ei chartref, Cilan, Rhos y Coed, ar 17 Mawrth, bu farw Mrs. Margaret Heddwen Jones yn 84 mlwydd oed. Priod annwyl Mr. Thomas Jones, mam a mam yng nghyfraith arbennig i Alan a Jackie, Colin, Carys a Kevin. Nain hoffus a charedig i Ceri, Carl, Alexandre, Chelsey, Siôn, Bronwen a Ffion, a hen nain i Poppy. Roedd yn chwaer a chwaer yng nghyfraith i Ann a Geraint ac yn fodryb annwyl.

Un o'r Gerlan oedd Heddwen, ac fe briododd hi â Tom yng Nghapel Gerlan ble 'roedd yn aelod.

Bu'n cartrefu yn Garneddwen a Rhos y Coed. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Carmel, Rachub, ble bu'n weithgar a chefnogol iawn gyda'r Te Bach misol, cyfarfod y chwiorydd a'r cyfarfod gweddi. Roedd hefyd yn aelod o Sefydliad y Merched.

Ni fu'r blynyddoedd diwethaf yn garedig wrth Heddwen pan fu'n gaeth i'w chartref ble cafodd ofal arbennig yn ei gwaeledd.

Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Carmel a mynwent Coetmor, ddydd Iau, 25 Mawrth, dan ofal ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Cyflwynwyd teyrnged i Heddwen gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, ac fe gafwyd datganiad o Suai'r Gwynt a Dwy Law yn Erfyn gan Elen Wyn. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Mrs. Nancy Hughes

Yn Ysbyty Gwynedd ar 12 Mawrth, bu farw Mrs. Nancy Hughes, Stryd yr Eglwys, Llangefni, (gynt o Tŷ Capel Jerusalem a Braichmelyn). Roedd yn 89 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. John Hefin Hughes, mam annwyl Gerallt, Dafydd ac Ann. Nain hoffus i Dion, Sioned, Ffion, Bethan a'r diweddar Iestyn. Roedd yn hen nain hefyd ac yn chwaer annwyl i Margaret. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Gwener, 26 Mawrth, gyda gwasanaeth yng Nghapel Moreia, Llangefni, ac yna ym mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

post@llaisogwan.com



Y Byd Dartiau

Bu'r ddau fis diwethaf yn ferw gwyllt ym myd y dartiau yng Nghymru. Daeth dwy bencampwriaeth y byd i'r wlad o fewn wythnosau i'w gilydd drwy ddwylo medrus dau o'r de, sef Gerwyn Price, enillydd pencampwriaeth Meistri'r Byd a Johnny Clayton, enillydd pencampwriaeth y Byd. Mae yntau'n dilyn ôl traed enillwyr eraill o Gymru fel Leighton James, Richie Burnett a Mark Webster o Ddinbych. Mae un o Rachub yn adnabod y ddau bencampwr newydd yn dda.

Er mai un o Garn Dolbenmaen yw John Williams yn wreiddiol mae wedi byw yn Rachub ers 34 o flynyddoedd pan briododd gyda merch leol, Gaynor. Dechreuodd ei ddiddordeb yn y gamp pan yn aelod o Glwb Ieuenctid Garn, clwb bychan a brofodd lwyddiant mawr drwy ennill pencampwriaeth Ieuenctid de Sir Gaernarfon bum gwaith a phencampwriaeth Clybiau Sir Gaernarfon unwaith. Arferai John chwarae i nifer o dimau yn ardal Penygroes, Porthmadog a Ffestiniog cyn

symud i Rachub.

Wedi priodi gyda Gaynor ni phallodd ei ddiddordeb yn y dartiau gan chwarae i dimau lleol Cynghrair Bethesda a Bangor. Wrth gwrs bu rhaid iddo gefnogi Gaynor wrth iddi hithau gynrychioli merched Cymru dros 37 o weithiau. Cynrychiolodd Gymru yng Nghwpan Ewrop yn Oslo yn 1998 ac yng nghwpan y Byd yn Perth, Awstralia. Cafodd hefyd y profiad o chwarae yn Lakeside, wrth iddi gyrraedd wyth olaf cystadleuaeth y merched a chael yr hawl i chwarae yn y lle eiconig hwnnw yn 2003.

Erbyn hyn ysgrifennu a phwyllgora ym maes y gamp mae John. Mae'n ysgrifennu'n rheolaidd am hynt a helynt timau Cymru yn y cylchgrawn 'Darts World'. Mae hefyd yn brysur fel is-gadeirydd cynghreiriau lleol ac yn ysgrifennydd ac is-gadeirydd Dartiau Gwynedd. Fel ysgrifennydd cymdeithas dartiau Cymru mae'n un o drefnyddion Pencampwriaethau Cymru a gynhelir yn flynyddol mewn gwersylloedd gwyliau fel Butlins neu Pontins.

Y mae hefyd yn un o drefnyddion tîm dynion Cymru mewn cystadlaethau dros y byd, ac wedi teithio gyda hwy i nifer o



wledydd fel Awstralia, Canada a sawl gwlad yn Ewrop.

Pan ddaeth i fyw i Fethesda roedd y gynghrair dartiau lleol yn fywiog iawn, gyda rhai o'r tafarndai a'r Clybiau yn rhedeg dau dîm, ond erbyn heddiw mae'r diddordeb wedi gwanhau'n arw. Mae'n rhoi y bai ar newid mawr ym mhatrwm cymdeithasu drwy Brydain, diffyg arian a sefyllfa gwaith y chwaraewyr. Daeth y gamp Pwll hefyd yn boblogaidd yn y dyffryn dros y blynyddoedd diwethaf.

Dalier ati drwy'r holl rwystrau ac efallai y cawn weld pencampwriaeth byd yn cyrraedd gogledd Cymru unwaith eto.

Yr Eglwys Unedig

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Nancy Hughes, Tŷ Capel Jerusalem gynt. Bu Mrs Hughes yn ofalwraig i ni yma yn yr Eglwys Unedig am flynyddoedd, cyn ymddeol i Ynys Môn. Anfonwn ein cofion cywiraf at ei meibion, Gerallt a Dafydd, a'r teulu oll.

Gwasanaeth Cymun

Cynhaliwyd gwasanaeth Cymun dros y ffôn fore Sul, Mawrth 21, o dan arweiniad Mr Gwilym Williams – diolch o galon iddo am oedfa fendithiol dros ben.

Cofion

Wrth anfon ein cofion at bawb sydd yn cael eu llethu gan salwch, henaint, unigrwydd, neu alar, diolchwn i'r rhai hynny yn ein cymuned sydd yn gwneud eu gorau i ofalu amdanynt drwy bob gair a gweithred - ein meddygon, nyrsus, gweithwyr cymdeithasol, a'r holl wirfoddolwyr sydd yn ein cynnal yn ddiplino.

Gwasanaethau

Aeth blwyddyn gron heibio bellach ers i ni orfod ymatal rhag cynnal gwasanaethau yn y capel, ond erbyn hyn mae llygedyn o obaith y cawn wneud hynny yn y dyfodol gweddol agos, ac fe adawn i chwi wybod pa bryd y bydd hynny'n digwydd. Yn y cyfamser, bydd y drysau 'ar agor' bob bore Sul am 10 o'r gloch drwy gyfrwng y

ffôn. Dyma'r rhai fydd yn ein harwain yn y gwasanaethau yn ystod yr wythnosau nesaf: Ebrill 18: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans Ebrill 25: Mr Owain Davies Mai 2: Y Parchedig Mererid Mair Mai 9: Y Parchedig John Pritchard (Sul Cymorth Cristnogol) Mai 16: Trefniant mewnol Croeso cynnes i chwi i'r oedfaon hyn – dyma'r rhifau perthnasol ar gyfer ymuno â ni: Deialu: 03330 164 757. Ymhen ychydig eiliadau bydd llais yn gofyn i chwi ddeialu rhif ystafell: 110 445 70# ac yna deialu rhif pin: 4414# A dyna ni – byddwch wedi ymuno! Cofiwch roi'r # i mewn!

Dyma gerdd hyfryd gan Elin Angharad Davies i godi calon, a chofio ar yr un pryd am rai llai ffodus na ni: Pan gaiff y clo ei ddatod, A'r hawl i deithio'n ffri, Bydd pawb yn falch o grwydro'r wlad, Ymweld â ffrindiau lu.

Bydd modd mynd heibio'r teulu, A dathlu mawr a fydd, Paned fach â hwn a'r llall, Pawb â'u traed yn rhydd.

Ond cofiwch pa mor anodd Y bydd i ambell deulu, Tra bydd y rhelyw'n llawenhau, Bydd eraill yn hiraethu. Diolch, Elin.

Eglwys Crist, Glanogwen

Siom

Fel yr oeddem yn paratoi at Sul y Pasg, gan edrych ymlaen yn eiddgar i gael ail-ymgynnull fel cynulleidfa, daeth y newyddion trist fod archwilwyr wedi darganfod bod dirywiad sylweddol yn y clochdy, ac o ganlyniad bu raid atal y cyhoedd rhag mynd i'r eglwys na'r fynwent am resymau lechyd a Diogelwch.

Rhaid disgwyl yn awr am adroddiad manwl gyda amcangyfrif o'r gost i wneud y gwelliannau angenrheidiol, felly ni allwn ddweud pryd y bydd hi'n bosib ddefnyddio'r adeilad eto.

Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sal yn eu cartref neu'r ysbyty, gan ddymuno gwellhad buan a chysur i bawb.

Diolch o galon am y llu rhoddion ddaeth i'r eglwys ddechrau Mawrth ar gyfer y Banc Bwyd. Derbyniwyd llythyr gan y tim yn y Gadeirlan yn mynegi diolch diffuant am ein haelioni fel eglwys.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(01248 605582 a 07887624459)
henbarc13@gmail.com

Amrywiol bethau

Caewyd dwy stryd yn Rachub (Stryd Fawr a Lôn Groes) yn ystod mis Mawrth gan fod y bwrdd nwy angen gwneud gwaith yno.

Cwynodd Huw Vaughan Jones (Llwyn Bedw) am awyrennau o faes awyrennau'r Fali'n gwneud sŵn annioddefol wrth ymarfer.

Tynnwyd sylw at nifer o anghenion Rachub gan y cynghorydd cymunedol Michael Williams mewn llythyr at Gyngor Bethesda.

Gosodwyd twmpathau newydd yn Llwyn Bleddyn gan Gyngor Gwynedd am fod pobl leol wedi cwyno am gerbydau'n gyrru'n rhy gyflym iddynt fedru croesi'r ffordd yn ddiogel. Wedi iddynt gael eu gosod fe gafwyd cwynion gan yrrwyr am uchder y twmpathau a bu raid i'r cyngor ailedrych ar eu maint.

Y mae'n dda gennym glywed bod clyw Margaret Bryn, Tan Rallt yn well wedi triniaeth yn Boots, Bangor.

Dymunwn yn dda i Michael Fox, Ffordd y Mynydd wedi iddo ddod adref o'r ysbyty.

Gosodwyd arwydd wrth ochr tŷ tafarn y

"Royal Oak" gan Punch Taverns i ddangos bod y cwmni'n chwilio am denant newydd.

Daeth peiriannau trwm i Cae Rosydd yn ddiweddar i ddechrau datblygu'r tir ar gyfer adeiladu 30 o anheddau.

Cyflwynwyd syniad o gael Lôn Beics newydd o Rachub i Bryn Bella gan y ddau gynghorydd sirol. Bydd rhaid chwilio am gymorthdâl sylweddol iawn i wireddu'r cynllun.

Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Tom Jones, Bethesda (gynt o Rachub) oherwydd marwolaeth ei wraig Heddwen wedi salwch tymor hir.

Capel Carmel

Llongyfarchiadau i Wendy a Ron Jones ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd baban bach I Laura, merch Wendy a Ron ym mis Mawrth. Ei henw hi yw Eira. Rydym yn dymuno pob bendith a hapusrwydd i'r dyfodol i Eira fach a'i rhieni, Laura a Tom, yn eu cartref yn Vancouver, Canada.

Yr Ysgol Sul

Diolch i blant yr Ysgol Sul am gwblhau eu gwersi wythnosol nhw drwy gydol y gaeaf. Rydym ni'n gobeithio bod pob un ohonoch chi wedi cael eich ŵy Pasg siocled ac y byddwch chi'n cael mynd allan i chwarae rwan yn nhywydd braf y gwanwyn. Rydym ni'n edrych ymlaen at gael eich gweld chi yn ôl yn yr Ysgol Sul pryd bynnag y cawn ni aildechrau gwersi wyneb yn wyneb.

Clwb Dwylo Pysur yr Ifanc

Llongyfarchiadau mawr i ddau o'n haelodau ni ar ddathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Cafodd Charmaine ei phen-blwydd ym mis Mawrth a Gwydion ym mis Ebrill. Mae'r ddau wedi bod yn aelodau ffyddlon o'r clwb ers blynyddoedd, ac mae hi wedi bod yn chwith i bob un ohonom ni fod yn methu â chyfarfod ar nos Wener am flwyddyn gron erbyn hyn. Pob dymuniad da i'r dyfodol i'r ddau ohonoch chi! Rydym ni'n edrych ymlaen at gael gweld yr aelodau ifanc i gyd gyda'i gilydd yn y clwb unwaith eto hefyd ryw bryd yn y dyfodol agos.

Colli Aelod

Bu farw Mrs Heddwen Jones, 'Cilan', Rhos y Coed, Bethesda ar 17 o fis Mawrth yn 84 mlwydd oed. Roedd Heddwen yn aelod ffyddlon iawn yn oedfaon y capel hyd nes i waeledd ei rhwystro hi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd ganddi hi wên annwyl bob amser i bawb a fyddai'n ymweld â hi, hyd yn oed pan oedd hi'n orweddiog. Cydymdeimlwn â Thomas, ei gŵr, yn ogystal â'i phlant, Alan, Colin, a Carys a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol gan Parchg D John Pritchard. Yn ystod y gwasanaeth, cafodd dau o hoff emynau Heddwen eu canu gan Elen Wyn, sy'n ffrind i Ffion, un o wyresau Heddwen. Dywedodd Parchg Dafydd Coetmor Williams air o deyrnged hefyd.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Cyfarchion y Pasg

Roedd Ann, Nerys a Rhian yn brysur cyn y Pasg yn dosbarthu croesau Sul y Palmwydd, neu Sul y Blodau fel y gelwir yn lleol, a chylchlythyrau newyddion i'r gynulleidfa chefnogwyr eraill yr eglwys. Manteisiwyd ar y cyfle i ddymuno Pasg Hapus i'r unigolion wyneb yn wyneb o bellter diogelwch 2 fedr!

Diolchiadau

Estynwyd gwahoddiad i gynulleidfa St Tegai i fynychu gwasanaethau Sul y Pasg yn yr eglwys Bro Ogwen oedd ar agor. Fel mae darllenwyr y Llais yn gwybod, mae Eglwys St Tegai ar gau am yr ail Basg yn olynol oherwydd gwaith atgyweirio sylweddol. Roedd Archddiacon Mary Stallard yn arwain addoliad y Pasg yn Eglwys Gelli, Tregarth ac yn St Cross, Talybont.

Gwaeledd

Mae gennym sawl aelod yn parhau i dderbyn triniaeth neu yn cael gofal adref: Joy Radcliffe, Pat Jones a Liz Jones. Ein dymuniadau gorau iddynt i gyd. Cydymdeimlad hefyd i ffrindiau yn y gymuned sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Maent yn gyson yn ein gweddïau.

Casgliad y Pasg 2021

Mae swyddogion yr eglwys yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi gyrru'r casgliad Pasg i'r Trysorydd ac yn parhau i gefnogi'r eglwys yn ariannol pan nad yw'n bosibl cynnal gwasanaethau yn yr adeilad. Gellir gyrru cyfraniadau i unrhyw un o'r swyddogion canlynol:

Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a

Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai

Yn ystod cyfnod y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweiddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysy eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yr esgobaeth yn wythnosol drwy ebost. Croeso i chi oleuo kannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdd a dweud gweddi gyda ni. Braf oedd gweld ambell eglwys ym Mro Ogwen yn ail agor dros gyfnod y Pasg.

Diolch i'r Esgob ac i Mary Stallard am yrru'r myfyrdodau wythnosol ar lein i bob eglwys ym Mro Ogwen. Cynhelir gwasanaeth Gosber trwy gyfrwng y Gymraeg ar lein bob nos Sul; gweler gwefan yr Esgobaeth am yr holl ddarpariaeth addoli.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysy Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Geni

Llongyfarchiadau i Liam a Fflur, Llanfairpwll ar enedigaeth Caio Jac ar 30 Hydref 2020, brawd bach i Lwsi Fflur.

Llongyfarchiadau hefyd i taid a nain Alwyn ac Alison Lloyd Ellis, Tal y cae, Tregarth ac mae Liam a Fflur yn diolch yn fawr iawn am y dymuniadau gorau a'r anrhegion maen nhw wedi'u derbyn.

Diolch

Dymuna Tony Jones, gynt o Erw Wen, Ffordd Tanrhiw ddiolch o galon i bawb a fu mor ffeind efo fo wedi iddo golli ei fam sef Alwenna ym mis Tachwedd. Diolch am y rhoddion o £1,000 tuag at Hosbis Dewi Sant yn Llandudno er cof amdani. Diolch hefyd i Iolo Roberts ac Owen, Trefnwyr Angladdau, Penygroes am y trefniadau a'r Parchedig Huw John Hughes am arwain y gwasanaeth. Bydd bwlbach mawr yn Ffordd Tanrhiw ar ei hôl.

Capel Shiloh

Mae Capel Shiloh wedi ail agor ers Sul y Pasg ac mae croeso mawr i bawb ymuno yn yr oedfaon. Rydym y dilyn y canllawiau diogelwch ac ar agor ar Nos Sul am 5 o'r gloch.

Dyma'r gwasanaethau yn ystod yr wythnosau nesa,

Ebrill 18 - Jennie Hurd, Llanymynech
 Ebrill 25 - Glyn Owen, Llanwnda
 Mai 2 - Richard Gillion
 Mai 9 - Trefniant Lleol Sul Cymorth Cristnogol
 Mai 16 - Eric Jones, Bangor
 Mai 23 - Richard O Jones, Gaerwen
 Mai 30 - Trefniant Lleol

Profedigaeth

Daeth profedigaeth i ran un o aelodau Shiloh, sef Einir Wyn Jones, Henli, Pendinas. Bu farw mam Einir, sef Mair Elizabeth Williams, Brynsiencyn ar Fawrth 5 yn 85 oed. Anfonwn ein cofion at Einir, Aled, Morgan a Sion a

thad Einir sef Alun Williams a'r holl deulu.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Mae'r gangen yma yn Nhregarth yn parhau er nad oes cyfle i ddod at ein gilydd ar hyn o bryd. Diolch o galon i Myfanwy ac Allison am sicrhau ein bod ni yn cael pob newydd yn ymwneud a'r Mudiad a gobeithio yn y dyfodol agos y cawn ddod at ein gilydd yn yr awyr iach i roi'r byd yn ei le!

Daeth profedigaeth i deulu Augusta Williams, Llanllechid. Bu Augusta yn aelod o'r gangen ers rhai blynyddoedd er iddi fethu y cyfarfodydd yn y blynyddoedd diwethaf. Cofion at ei theulu.

Fe gollodd Einir Wyn Jones, Pendinas, ei mham ym Mis Mawrth a chydymdeimlwn gyda hi a'r teulu.

Rhowch wybod, os gwelwch yn dda os oes chwaneg o newyddion o'r gangen.

Profedigaeth

Bu farw Nancy Hughes o Langefni, gynt o Bethesda, ar Fawrth 12. Mae un o'i wyrion yn byw yn ei gartref newydd yn Nhregarth, sef Dion a Ffion a'r plant bach Iago a Greta. Cydymdeimlwn gyda'r holl deulu.

Yn Ysbyty Gwynedd ac o Caerau, Tregarth, bu farw Eira Wyn Roberts, gynt o Waunfawr ar Fawrth 9. Anfonwn ein cofion at ei theulu hithau.

Ymdeoliad

Ymddiheurwn ein bod yn hwyr gyda'r newydd yma o Dregarth ond dwi'n sicr yr hoffem i gyd fel cymdeithas yn y pentre ddymuno yn dda i Dafydd Roberts, Cae'r Wern, ar ei ymdeoliad diweddar fel Curadur Amgueddfa y Chwarel yn Llanberis. Gwyddom i gyd am ei waith ardderchog a dymunwn ymdeoliad hir ac iach iddo ef ac Enid ei briod.

Gair neu ddau - John Pritchard

Amhosibl ac Anghyflawn

Doeddwn i ddim yn siŵr a ddylwn i brynu wyau Pasg i'r plant bach eleni. Y llynedd, roeddwn wedi prynu wyau mewn da bryd, cyn dyfod y Cloi Mewn. Ond am na welais i blant Lerpwl a Chaerdydd am fisoedd wedyn doedd dim amdani ond bwyta'r wyau fy hun. Gwell hynny na'u difetha. O leiaf, dyna f'egus i. Mentro eu prynu wnes i eleni eto, yn y gobaith na fydd raid aros yn rhy hir i weld y plant. A phan gaf eu gweld nid wyau Pasg fydd yr unig bethau i'w rhoi iddyn nhw gan fod ambell anrheg Nadolig hwyr yn eu haros hefyd.

Am unwaith, felly, bydd y Nadolig a'r Pasg yn un. Nid bod unrhyw beth o'i le ar hynny chwaith gan fod y ddwy ŵyl ynghlwm wrth ei gilydd. Mae oddeutu tri mis rhyngddynt yng nghalendr yr Eglwys, a chyfnod o dair blynedd ar ddeg ar hugain ym mywyd Iesu'n gwahanu'r ddau ddigwyddiad a nodir ganddynt. Ond mor bwysig yw cofio bod cysylltiad annatod rhwng y ddeubeth. Ar un wedd, un digwyddiad yw genedigaeth Iesu ar y naill law a'i farwolaeth a'i atgyfodiad ar y llaw arall. Ar eu pen eu hunain, mae'r naill yn amhosibl a'r llall yn anghyflawn.

Heb y Nadolig, fyddai'r Pasg Cristnogol ddim yn bod. Yn amlwg, pe na fyddai Iesu wedi ei eni byddai'n amhosibl iddo gael ei groeshoelio. Mae pawb yn deall hynny.

A'r un mor wir: heb y Pasg

fyddai'r Nadolig ddim yn bod. Pe na fyddai Iesu wedi ei groeshoelio, fyddai o ddim wedi ei eni chwaith. Nid yw hynny mor amlwg o bosibl, ond dyna'r gwir.

Y mae'r Nadolig yn anghyflawn heb y Pasg gan mai dod i farw ar y groes a wnaeth Iesu Grist. Nid rhywbeth anffodus a ddigwyddodd iddo oedd y groes. Nid rhywbeth y byddai wedi medru ei osgoi pe na fyddai wedi codi gwrychyn yr awdurdodau crefyddol a phe byddai wedi cadw draw o Jerwsalem oedd y groes. Yr oedd yn gwbl amhosibl iddo'i hosgoi gan mai er mwyn marw ar Galfaria y cafodd ei eni. Er mwyn y Pasg y mae'r Nadolig yn bod.

Un o ddirgelion mawr y Ffydd Gristnogol yw'r ffaith mai'r un a aned er mwyn marw yw Iesu Grist. Mae pawb arall a enir yn anorfod yn wynebu marwolaeth. Ni allwn osgoi'r gelyn angau, ond nid er mwyn marw y cawsom ein geni. Ond neges fawr yr Efyngyl yw bod Iesu Grist wedi ei eni er mwyn marw. Ac yntau'n ddyn perffaith ac yn Fab Duw, doedd dim rhaid iddo farw. Marw o'i wirfodd wnaeth Iesu: dewis marw dros eraill; ei roi ei hun yn aberth drostynt, er mwyn iddynt hwy gael bywyd. Ond nid penderfynu gwneud hynny a wnaeth wedi iddo ddod i'r byd. Dyma oedd ei fwriad cyn iddo ddod. Dyma bwrpas ei ddyfodiad; dyma'r rheswm dros ei enedigaeth. Fyddai o ddim wedi cael ei eni o gwbl oni bai am y groes.

Ydi, mae'r Pasg yn amhosibl heb y Nadolig a'r Nadolig yn anghyflawn heb y Pasg.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
 Atgyweirio MOT
 Gwasanaethu Cerbydau
 Cydbwysio Teiars
 Batris
 Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
 www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
 Gwynedd LL57 4AY



Ysgol Llanllechid

Croeso'n ôl

Ar ôl hanner tymor, roedd hi'n bleser croesawu'r plant ieuengaf yn ôl atom. Braf eu gweld yn rhedeg i mewn i'r ysgol yn hapus braf; wrth eu boddau yn gweld pawb. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae pawb yn ôl, a diolch am hynny! Diolch i bob un o'r staff am eu gwaith rhagorol, gan gynnwys y cymorthyddion, sydd wedi gweithio'n ddi-flino yn ein hybiau, ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Wrth i'r cyfnod hwn rygnu yn ei flaen, ac achosion o Covid yn ymddangos yn llawer rhy aml yn ein cymunedau, diolchwn i bawb am eu cydweithrediad a'u cymorth parod. Beth oedd yr hen adnod? Ymlaen mae Canan? Triwn ein gorau!

Cofion

Anfonwn ein cofion at Mrs Marian Jones, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunaidau gorau am wellhad buan iawn. Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at Ms Rhian Haf, sy'n hunan ynysu. Cofion cynnes atoch eich dwy.

Gŵyl Ddewi a Dathlu ein Cymreictod

Cafwyd dathliadau Gwyl Ddewi yn rhithiol eleni hefo'r plant, am y tro cyntaf mewn hanes! Cafwyd gweithgareddau megis cloccio, dysgu am enwogion fel Hedd Wyn, a chymryd rhan mewn gweithdai llythrennedd hefo Ani Lŷn.

Englyn yr Wythnos

Mae'r disgyblion yn cael budd garw o ddysgu englyn newydd pob wythnos. Gan fod y plant hŷn yn wedi bod yn dysgu am Isaac Newton, pa englyn gwell i'w ddysgu na'r englyn gan John Glyn Jones – Yr Afal. Fferyn arall yw'r englyn gan y Prifardd Ieuan Wyn:

Ysgol Llanllechid

Heddiw, yr un yw ei llwyddiant – yn frwd
Dros fro a diwylliant,
Yn uno dysg a mwyniant
A rhoi'n y blaen yr hen blant.

Eisteddfod Rhithwir William Mathias

Diolch yn fawr i'r canlynol am fod mor barod i gystadlu yn yr Eisteddfod rhithiol: Ela a Lili Williams, Elsi Allsup, Harri Bale, Gruff a Robin Glyn, Cara Lennox, Cadi Lois, Cai Roberts, Nest Durrant a Dylan Billington. Llongyfarchiadau i Gruffydd Llwyd Beech ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth yr unawd ac i Gwenno Llwyd Beech ar ddod yn drydydd gyda'r unawd Cerdd Dant. Da iawn bawb! Diolch i Mrs Delyth Humphreys.

Diwrnod Cenedlaethol Hedfan Barcud

Er mwyn ysbrydoli ein disgyblion hynaf i fynd allan i'r awyr iach yn ystod y cyfnod clo, ac fel gweithgaredd oedd yn cyd-fynd a'u thema, derbyniodd pob disgybl ym Mlwyddyn 6 rodd o farcud. Cafodd y disgyblion hwyl yn dysgu sgil newydd; a'r canlyniad oedd, – tydi hedfan barcud ddim mor hawdd â hynny bob tro! Y gyfrinach yw: rhaid dyfalbarhau!

Cystadleuaeth Neges Ewyllys

Da Bangor/Ogwen

Llongyfarchiadau i Angharad a Llinos Ball, Ifan Cai Hughes a Nest durrant ar ddod i'r brig yn y gystadleuaeth a drefnwyd gan Fenter Iaith Bangor I ysgolion Bangor a Dyffryn Ogwen. Y dasg oedd creu poster neges ewyllys da ar gyfer 2021. Llongyfarchiadau i chi eich pedwar ar eich campweithiau.

Dinasyddiaeth Fyd Eang

Bu'r disgyblion yn creu llusernau er mwyn dathlu blwyddyn newydd China. Hefyd, braf oedd bod yn yr un ystafell rithiol ag Avantika, prifatharwes o India, oedd yn siarad hefo ni o ardal o Kullu yng Ngogledd y wlad. Treuliyd orig ddifyr yn gwrando ar ei straeon ac yn holi am ei gwlad ryfeddol. Trafodwyd eu hanifeiliaid gwyllt, ymysg pynciau eraill, a chawsom ein tristhau wrth ddysgu am hynt y teigr. Mae'n sobor dysgu'r ffaith fod eu niferoedd wedi gostwng 95% yn ystod y ganrif a hanner ddiwethaf.



Elsa
gyda'r
englyn



Gwenno Llwyd
Beech a ddaeth
yn gyntaf
am ysgrifennu
stori fer

Llwyddiant i Gwenno

Llongyfarchiadau gwersog i Gwenno Llwyd Beech ar ddod i'r brig am ysgrifennu stori fer mewn cystadleuaeth, a gynhaliwyd gan y Royal Mint i ddynodi 50 mlynedd ers i arian gael ei drosi i arian degol. Roedd hon yn gystadleuaeth genedlaethol, ac yn agored i blant drwy Brydain. Y dasg oedd ysgrifennu stori fer yn deillio o'r Diwrnod Digidol yn 1971. Camp a hanner! Da iawn ti!

Trefnodd dosbarth Ms Gwnelli Haf brotest ar sgwar Rachub, i dynnu sylw'r cyhoedd at y modd mae cynefin y teigr yn diflannu, ac oblygiadau hynny ar ein planed.

Pasg Hapus

Dymuniadau da i'r holl ddarllenwyr am Basg hapus, ac edrychwn ymlaen at gyfnod newydd arall, ble bydd llacio rhywfaint ar y clo.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
loggi coed

01248 605207

post@llaisogwan.com



Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

Mudo Llyffantod a Brogaod

Mae'r gwaith blynyddol o achub llyffantod a brogaod rhag eu gwasgu gan foduron wedi dod i ben ar gyfer 2021. Dechreuodd y mudo ar hyd Lôn Rallt ar Ionawr 11, ond oherwydd y tywydd oer, bu i'r rhan fwyaf o'r mudo cymryd rhan tua diwedd Chwefror a chanol Mawrth.

Bu 17 o wirfoddolwyr yn casglu gyda'u bwcedi ac achubwyd 1,459 o lyffantod a 65 broga, mae hyn yn cymharu gyda 1,619 llyffant a 149 broga yn 2020. Diolch i Iwan am yr ystadegau ac am gadw golwg ar y tymheredd a chydlynu'r casglwyr.

Gerddi Agored Pentir

Am yr ail flwyddyn yn olynol, fe benderfynwyd gohirio'r digwyddiad yma. Mae hyn oherwydd pryder ynglŷn â Covid-19. Mae'n siomiant mawr gan gysidro'r holl waith caled sydd yn digwydd dros fisoedd i gael y gerddi ar eu gorau.

Dros y blynyddoedd mae Gerddi Agored Pentir yn ddigwyddiad pwysig yn nyddiadur yr ardal ac wedi codi arian sylweddol tuag at wahanol elusennau.

Bydd y garddwyr, sydd yn rhan o'r fenter yn adolygu eu hopsiynau ar gyfer y dyfodol. I'r rhai sydd wedi mwynhau crwydro'r gerddi yn y gorffennol, gobeithir bydd penderfyniad cadarnhaol ar gyfer 2022.

Partneriaeth Ogwen

(gw. y stori flaen)

Mae prosiect cymunedol diweddaraf Partneriaeth Ogwen, sef Daucanmlwyddiant Bethesda, wedi bod yn cael ei ddatblygu yn ystod y misoedd diwethaf. Llwyddodd Partneriaeth Ogwen i sicrhau nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i gynnal prosiect cymunedol sy'n canolbwyntio ar ddyrchafu statws treftadaeth a diwylliant yr ardal.

Rydym wedi mynd ati i lunio rhaglen eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau fydd yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf (gweler y digwyddiadaur.) Gellir cofrestru ar gyfer ein digwyddiadau drwy ymweld â thudalen Facebook Daucanmlwyddiant Bethesda, neu e-bostio pesda@ogwen.org am gymorth a manylion pellach. Cofiwch gofrestru cyn gynted â phosib!

Ysgol Bodfeurig

Ar ôl cyfnod rhyfedd a thawel yn yr ysgol, braf iawn oedd cael croesawu'r plant i gyd yn ôl y mis yma! Mae'n braf clywed lleisiau plant a sŵn chwerthin yn llenwi'r dosbarthiadau a'r iard. Yn sicr nid oes cyfle wedi bod i ymlacio – mae pawb wedi bod yn awyddus iawn i fwrw mlaen i ddysgu pethau newydd. Dyma ychydig o'n hanes!



Adnoddau newydd

Hoffai'r plant ddiolch i'r gymdeithas rhieni ac athrawon am gyfrannu arian tuag at peli newydd i'w defnyddio ar yr iard! Roedd pawb wrth eu boddau yn ymarfer sgiliau newydd a chael hwyl yn chwarae gyda nhw. Diolch!

Llwyddodd y raffl pasg i gasglu bron i £200 – arian gwerthfawr iawn i brynu

mwy o adnoddau i'r ysgol. Diolch i bawb gefnogodd.

Ysgol Goedwig

Roedd plant dosbarth Idwal yn hapus dros ben i ail afael yn eu sesiynau Ysgol Goedwig! Dyma gyfle i fod yn yr awyr agored yn dysgu am natur yn ogystal â dysgu am bethau fel mesur hyd, pwyso, trefnu o ran maint a llawer mwy. Uchafbwynt yr wythnosau diwethaf oedd defnyddio'r gegin fwd i greu uwd i Elen Benfelen a'r tri arth.

Pasg

Gyda'r Pasg yn agosáu bu dosbarth Idwal yn brysur yn dysgu a chreu. Buont yn brysur iawn yn creu cacennau Pasg, cardiau a basgedi yn ogystal â mynd ar helpa Pasg i chwilio am eiriau a lluniau yn ymwneud â'r cyfnod.

Cyfrifiad

Gyda'r amser wedi cyrraedd i bawb gyflawni'r cyfrifiad eleni cafodd dosbarth Ogwen gyfle i ddysgu am waith y cyfrifiad trwy edrych yn ôl ar gyfrifiad 1901 Mynydd Llandegai yn ogystal a chreu cyfrifiad dosbarth ei hunain ar fas data. Roedd gan llawer o'r plant ddiddordeb mawr mewn dysgu pwy oedd yn byw yn eu tŷ nhw dros gan mlynedd yn ôl!



Arian y Loteri Genedlaethol i helpu cymunedau Cymru i addasu ac adfer

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau drwy COVID-19. Mae grantiau wedi cael eu hehangu i helpu cymunedau ledled Cymru i edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol. Cyfarfod rhithiol ar 26 Mai.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnal sesiwn gymorth rithiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer grwpiau cymunedol ac elusennau ar 26 Mai. Bydd y sesiwn yn rhoi mwy o wybodaeth i gymunedau ledled Cymru am wneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol ac yn atgyfnerthu'r blaenoriaethau ariannu newydd. Maen nhw'n arbennig o awyddus i siarad â grwpiau cymunedol nad ydynt wedi gwneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol o'r blaen.

Dywedodd Ruth Bates, Cyfarwyddwr Cronfa Gymunedol Cymru y Loteri Genedlaethol, "Rydym yma i gefnogi grwpiau cymunedol ac elusennau i gael mynediad at arian Loteri Genedlaethol. Mae ein timau yn barod i siarad â chi am eich syniadau i gefnogi cymunedau drwy'r cyfnod digynsail hwn, a thu hwnt i hynny."

"Rydym am ariannu

prosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau, a gwyddom mai'r prosiectau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sydd wedi'u datblygu gan y bobl a fydd yn elwa ohonynt. Rydym yn cefnogi grwpiau'n rhyngweithiol drwy gynnig cymorth datblygu sefydliadol."

£10,000 o grant yn bosibl

Mae 'Arian i Bawb' y Loteri Genedlaethol yn dyfarnu hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymateb i bandemig COVID-19.

Mae 'Pawb a'i Le' yn dyfarnu hyd at £500,000 i gymunedau gydweithio i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ariannu datblygiad sefydliadol fel rhan o'r prosiect ac mae Gwiriwr Cryfderau wedi'i ddatblygu i helpu cwsmeriaid i nodi cryfderau eu cymuned er mwyn adeiladu arnynt.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r sesiwn rithiol ar ddydd Mercher, 26 Mai, cysylltwch â fflur.davies@cronfagymunedolyg.org.uk. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu: <http://cronfagymunedolyg.org.uk/cymru>

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Unwaith eto, dyma droi at bwt neu ddau a godais o ddyddiaduron David D. Evans (neu Dafydd Ifans, fel y gelwid ef yn lleol). Tynnodd y cofnod a ganlyn ym 1950 fy sylw:

Awst 12, 1950: Evan Thomas, Tyn-tŵr, yn marw – 75 oed.

Fel y gŵyr llawer o bobl yr ardal, roedd yn Nyffryn Ogwen dros y blynyddoedd lawer o 'gymeriadau' a oedd rywsut yn wahanol i bawb arall o'u cwmpas. Cofiaf glywed sôn am y gŵr hwn a'i wraig yn byw yn Nhŷ John Iorc yn Nhy'n Tŵr, dros y ffordd fwy neu lai i'r hen llyn bach diog yn Afon Ogwen y soniodd Caradog Prichard amdano yn 'Y Briodas' a enillodd iddo'r Goron yn Eisteddfod Caerdybi ym 1927.

Ganed 'Ifan Tomos', fel y byddai pawb yn ynganu ei enw, ar Fai 8, 1875 ac, fel hogia' eraill ei gyfnod, aeth i weithio i Chwarel y Penrhyn. Gan ei fod yn ddyn talgryf a chydnerth, dros ei chwe throedfedd, fel Ifan Fawr y byddai pawb yn cyfeirio ato. Ar y llaw arall, roedd ei wraig, Margaret (a aned Mehefin 21, 1875), yn ddynes fechan bach, a defnyddio un o'r dywediadau 'diddorol' hynny a glywir mewn ardaloedd eraill heblaw Dyffryn Ogwen.

Mae'r unig stori a gofiaf yn cael ei hadrodd am Ifan a Margaret yn mynd â ni'n ôl i gyfnod yr Ail Ryfel y Byd. Roedd ofn mawr ar led ymhlith trigolion yr ardal gan y tybid bod Dyffryn Ogwen ar lwybr awyrennau'r Almaenwyr wrth iddynt hedfan yn ôl i'w meysydd awyr ar ôl bod yn bomio Lerpwl. Roedd lle i gredu y byddai unrhyw fomiau oedd ganddynt ar ôl yn cael eu gollwng ar Ddyffryn Ogwen. Ac fe ddigwyddodd hynny – lladdwyd gwraig pan

ddisgynnodd bom ar ei chartref yng Nghaellwngrydd a sonnir bod bomiau eraill wedi syrthio'n agos at Eglwys Glanogwen a hefyd ar y tir wrth ymyl yr A5 rhwng Pont-y-Tŵr a'r maes carafannau is i lawr na Phont Ogwen.

Pan fyddai sŵn y seiren yn seinio i rybuddio pobl y Dyffryn fod awyrennau'r gelyn yn agosáu, byddai nifer o'r trigolion yn chwilio am loches ar frys. Byddai mam yn sôn am un o'r rheini sef Miss Jones, Glan Denys. Roedd hi'n byw y drws nesa i'm rhieni a chlywais mai rhuthro i guddio yn y sbensh (sef ein gair ni am y twll-dan-grisiau) y byddai hi. Prin y gallai hi fod wedi meddwl am eiliad y byddai hi a'i sbensh a'i chartref cyfan wedi diflannu mewn amrantiad pe bai bom yn eu taro.

Ond roedd gan Ifan Tomos gynllun gwahanol. Prin y byddai sŵn y seiren wedi distewi na fyddai Ifan Tomos wedi cydio ym mraich ei wraig a'i llusgo, bron, dros Bont-y-Tŵr ar hyd y lôn i gyfeiriad Bryn Llwyd a'r chwarel ac yna at geg un o'r nifer o siaffiau tanddaearol oedd yno – lle nad oedd yr un bom, yn eu barn nhw, yn debygol o'u cyffwrdd! Ond un tro, a nhw'tha ar fin camu i mewn i'r siafft, clywsant yr 'All Clear' yn seinio yn y pellter, arwydd bod y peryglon drosodd a'i bod yn ddiogel i bawb ddod o'u cuddfannau.

Cychwynnodd Ifan a Margaret ar eu taith yn ôl i Dy'n Tŵr. Ond, gwaetha'r modd, pan oedd Ifan Tomos yn rhoi'r gorriad yn nrws y tŷ, canodd y seiren eto. Ac meddai'r hen greadur: 'Wel, wir i ti, Marged, mae'n rhad i ni gael gwell dealltwriaeth na hyn!' Ifan druan, er mor fawr oedd o, mor ddiniwed hefyd, te!

I'w barhau

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
(600853)

Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
(353500)

Mae'r clociau wedi mynd awr ar y blaen; arwyddion y Gwanwyn o'n cwmpas ym mhob man, a'r tywydd wedi cynhesu digon i ganiatáu ambell i banad yn yr ardd. Yn sicr, un o'r pethau pwysicaf inni ddysgu yn ystod Cyfnod y Clo yw sut i werthfawrogi'r pethau symlaf mewn bywyd.

Anrheg Arbennig i Hogyn Arbennig

Mae James, 11 Dolhelyg, yn gynefin â byw yn syml er dydd ei eni. Mae'n dioddef o'r cyflwr 'Angelman' sy'n golygu nad yw'n gallu cyfathrebu, na symud mor rhwydd â phobl ifanc yr un oed ag ef. Er hynny, mae o'n hynod o gymdeithasol, ac wrth ei fodd yng nghwmni'r plant o bob oed.

At ei gilydd, mae James yn fodlon ar ei fyd ond, wrth iddo wyllo hogiau'r pentref yn gwibio yma ac acw ar eu beiciau, dangosodd i'w fam, mai'r peth oedd o eisio fwy na dim yn y byd oedd beic. Yn amlwg, 'fedrai James byth fynd ar gefn beic cyffredin, ond mae Rachel wedi gorfod dringo llawer i fynydd yn ei hymdrechion i wella ansawdd bywyd ei mab, ac mi aeth ati rhag blaen i astudio'r posibiladau.

Un diwrnod yng nghanol mis Mawrth, clywsom floedd uchel o lawenydd yn dod o gyfeiriad rhif 11. Rhaid oedd brysio i ben y drws i weld beth oedd yn digwydd, ac wele James, ar ei 'Tomcat Bullet Trike' newydd sbon danlli (a Rachel, yn rheoli'r beic o'r tu ôl) yn pasio i lawr Dolhelyg. Mae James â gwên lydan ar ei wyneb bob amser wrth gyfarfod â'i gymdogion ond, y diwrnod hwnnw, roedd ei wên yn lletach nag erioed. Bendith arno!



James ar ei feic newydd efo Zac, ei frawd, a Ryan, un o'i ffrindiau pennaf.

Cerdded i'r Ysgol

Digwydd mynd am dro ychydig yn gynt un bore cyn gwyliau'r Pasg, a sylwi bod nifer dda o blant y pentref yn cerdded i fyny Twll Pistyll i Ysgol Llandygai. Roedd y rhai lleiaf, yn naturiol, yng nghwmni rhiant, ond braf iawn oedd gweld y plant hynaf yn cerdded

efo'i gilydd ac yn ymddwyn mor gyfrifol. Da iawn chi, blant! Mae'n amlwg 'bod chi'n hen barod i drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd ar ôl gwyliau'r Haf.

Diolch am Bobl fel Mathew

Mae'n Postfeistr Teithiol rhadlon, Mathew Williams, yn enghraifft dda o'r ffordd mae gwneud peth syml yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr. Mae ganddo orchuddion gwyneb ar gownter fan y Post, wedi'u gwneio'n grefftus gan wraig o Ynys Môn. Rhwng gwerthu'r mygydau; gwerthu cardiau Nadolig yn eu tymor, a chennin Pedr ar adeg Gŵyl Ddewi, mae Mathew wedi llwyddo i godi dros £2,300 at hyrwyddo gwaith nyrsus Marie Curie; elusen gwerthfawr iawn.

Llongyfarchiadau, Mathew, a diolch iti am dy ymweliadau wythnosol â Thalybont. Mae'n help mawr inni.

Llyfrgell Deithiol

Wrth imi ysgrifennu'r ychydig geiriau hyn, mae Wil, y Llyfrgellydd Teithiol, newydd alw yn y drws efo pedwar llyfr arall imi'u darllen. Mae'r fan yn dal i alw'n fisol ac, er nad ydym yn cael mynd i fyny yn yr oes Cofid sydd ohoni, daw Wil â llyfrau o'ch dewis i'r drws, neu hyd yn oed dewis deunydd darllen addas ar eich cyfer. Gresyn mai dim ond llond dwrn o bobl Talybont sy'n manteisio ar ei wasanaeth.

Symud tŷ

Dymuniadau gorau i Wil Kendrick, 4 Lôn Ddŵr, a'i gariad, Laura, sydd wedi symud i fyw i dŷ newydd ym Mhensarn, ger Abergele. Pob bendith i'r ddau ohonoch yn eich cartref newydd, ond peidiwch â bod yn ddiethr. Byddwn yn colli gweld Wil yn mynd â'r ddau gi bach am dro o gwmpas Talybont.

Profedigaethau

Anfonwn gydymdeimlad dwysaf at dri theulu o'r pentref sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar:

Enfys, gwyddom na fedr bywyd byth fod yn union yr un peth, wedi iti golli Llew ar ôl 72½ o flynyddoedd efo'ch gilydd. Mae'n gysur mawr bod y teulu o'th gwmpas, ond cofia fod dy ffrindiau yn y pentref ar gael hefyd, ond iti godi'r ffôn.

Estynnwn gydymdeimlad, a chofion cynnes at Dorothy, 17 Cae Gwigin a gollodd ei brawd, Stanley, ar y 6ed o Fawrth

Bu farw mam Meic Davies, 29 Cae Gwigin, ym Mhenmon ddau fis yn ôl. Mae ei dad wedi hen basio ei ddeg a phedwar ugain oed, ac yn gwynebu bywyd ar ei ben ei hun ar ôl 70 o flynyddoedd. Mae'n dda deall bod ganddo yntau deulu gofalus yn ei ymyl. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf, Meic, Sandra, a'r teulu oll yn eich hiraeth.

Gair o Ddiolch

Llewelyn Morris Jones

Dymunwn fel teulu, Enfys, Avril a Meriel, ddiolch o galon am yr holl arwyddion o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd i ni yn ein profedigaeth diweddar. Gwerthfawrogwyd pob galwad ffôn, cerdyn, blodau a chacen. Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad a roddwyd tuag at achosion lleol er cof am Llew. Hoffwn, fel teulu ddiolch i'r gofawyr a fu'n edrych ar ei ôl ers Mis Medi, roedd ganddo feddwl mawr ohonynt. Diolch arbennig i'r Parchedig John Pritchard, Capel Bethlehem, Talybont am arwain y gwasanaeth yn yr Amlogfa, ac i Gareth Williams, Garneddwen, yr ymgymerwr am ei drefniadau gofalus.

Eglwys St Cross

Gwasanaethau: Mae'r eglwys wedi ail-agor unwaith eto, a chawsom wasanaeth ar fore Sul y Pasg. Braf oedd gweld pawb, ac roeddem yn falch hefyd o groesawu cyfeillion o St Tegai a Glanogwen - cydymdeimlwn â nhw tra eu bod nhw yn 'ddigartref' wrth i waith atgyweirio a thrwsio gael ei wneud yn eu heglwysi.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimladau at Dorothy Hanks yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Stan, a fu farw ddechrau mis Mawrth. Cynhaliwyd ei angladd ar lan y bedd ym Mynwent Newydd Bangor.

Capel Bethlehem

Ffarwelio â Mr. Llew Jones: Er gwaetha'r cyfyngiadau sydd yn peri fod y niferoedd a ganiateir mewn angladdau yn gorfod bod yn llawer is, fe ffarweliwyd â Llew mewn gwasanaeth urddasol a theilwng dros ben.

Arweiniwyd y gwasanaeth, a gynhaliwyd yn Amlogfa Bangor ddydd Llun, 15 Mawrth, gan ei weinidog, y Parchedig John Pritchard, ac fe gyflwynwyd teyrnged i'w thad gan Meriel. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich colled fawr.

Ail-gychwyn eto: Cynhelir ein hoedfa gyntaf yn y Capel ers mis Rhagfyr ar bnawn Sul, 2 Mai am 2 o'r gloch. Ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard, fydd yn gwasanaethu. Bydd yr ail oedfa ar 23 Mai am 2 o'r gloch. Wrth gwrs, byddwn yn cadw at ganllawiau cofid 19.

Côr y Penrhyn gyda Derfel Roberts

CYFLWYNIAD

Yn y rhifynnau cynnar o Lais Ogwan yn ystod y saithdegau, arferai'r diweddar Ernest Roberts ysgrifennu colofn fisol i Lais Ogwan o dan y pennawd 'Cerrig Môn'. Roedd y penodau hynny'n llawn o wybodaeth ddifyr am hanes y dyffryn hwn ac am y digwyddiadau a'r cymeriadau oedd yn rhan o dapestri lliwgar y dyffryn yn y gorffennol. Y mis hwn cyhoeddwn barhad o stori'r côr yn mynd i Ffair Fawr y Byd yn Chicago yn 1993. Golygwyd ac addaswyd rhannau o'r erthygl.



Keith Roberts, wŷr William Gray yn cyflwyno cloc llechfaen 1893 i'r diweddar Tom Morgan, Llywydd Côr y Penrhyn yn Stafford yn 2011.

Pennod 2

FFAIR FAWR Y BYD

Denodd y Ffair farsianiwyer a gweithgareddau o bob math i babellu o'i chwmpas gyda neuaddau enfawr i fwydo'r miloedd a chyda cymaint â phedwar ugain salŵn i ddisychedu'r torfeydd. Yn Neuadd yr Eisteddfod fe gadeirwyd Dyfed gan Hwfa Môn am ei awdl fuddugol 'Iesu o Nasareth' ac fe gyhoeddwyd David E. Davies (Dewi Glan Ffrydlas) yn fuddugol yng nghystadlaethau'r Englyn a'r Hir a Thoddaid.

ANHAP

Ymgeisiodd saith o gorau meibion, dau ohonynt o Gymru, sef Côr y Penrhyn a Chôr Cwm Rhondda dan arweiniad y cerddor a'r arweinydd enwog, Tom Stephens. Pan oedd Côr y Penrhyn ar ganol canu'r darn cyntaf - '*Song of Freedom*' fe lithrodd copi'r cyfeilydd oddi ar y piano ac aeth ei dudalennau'n higldi-pigyldi a'r côr yn mynd allan o diwn. Roedd gan y corau eraill rywun i ofalu am gopi'r cyfeilydd a chyn i Gôr y Penrhyn ddechrau ar yr ail ddarn, sef y '*Pilgrims*' aeth cyfeilydd Côr y Rhondda i droi'r tudalennau i gyfeilydd Côr y Penrhyn. Cafodd Côr y Penrhyn y marciau uchaf am y '*Pilgrims*' ac yn ôl y beirniad roeddynt ar y blaen i bob côr arall nes y daethant at yr anhap gyda'r copi. Dyfarnwyd y wobwr gyntaf o \$1000 (£200) i Gôr y Rhondda a'r ail wobwr o \$500 (£100) i Gôr y Penrhyn. Gellir dirnad siom Edward Broome a'i gôr. Serch hynny nid gorchfygedig mohonynt a rhoesant sialens i Gôr Cwm Rhondda

I frwydro am lawryf corau meibion Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn y flwyddyn ddilynol. (1894).

Rhoddodd y côr ddau gyngerdd yn Chicago cyn ymadael am Ganada i roi cyngerdd arall ym Montreal ac yna hwyllo am adref ar y llong 'Oregon'.

Daeth saith côr i Gaernarfon yn 1894 i gystadlu ar y darnau '*Y Pysgotwyr*' a '*Dewi, bydd wych*' ond ni ddaeth Côr y Rhondda i'r ornest honno a enillwyd gan Gôr y Penrhyn.

ATGOFION

Difyr i ni'r hogia yn y Clwb ers talwm fyddai clywed yr hen fois yn sôn am ryfeddodau Ffair Fawr y Byd. Tenorydd y Bryniau wedi gweld a chlywed ffonograff am y tro cyntaf erioed a Defi Gordon yn sôn am gampau syrca Buffalo Bill a'i chowbois go iawn ymhell cyn i Tom Mix garlamu i'r 'liffin - pictiyr' yn y "Salfesh".

Wedyn dyna Harri Jones, Lôn Las yn dweud y stori am Morris Davies wedi mynd am dro o gwmpas strydoedd Chicago. Cymerodd yr hen Morris ryw wagen stem fel mynegbost i gael canfod ei ffordd yn ôl. Yn

anffodus, erbyn iddo droi ôl am ei lety roedd y wagen wedi symud a bu Morris druan yn cerdded a cherdded am oriau yn chwilio am ei lety. Dau blisman caredig ddaeth â'r hen Forris adref yn sâff yn y diwedd.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiw


Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com



Cymeriadau'r Côr

Gareth Owen Jones sy'n aelod o'r tenoriaid cyntaf ac yn gweithio fel plymar a ffitiwr siopau sy'n ateb y cwestiynau y mis yma.

- Beth ydy dy enw llawn?** Gareth Owen Jones (ond Bowen i'r rhan fwyaf)
- Oed?** 40.
- Gwaith?** Plymar a ffitiwr siopau.
- Lle wyt ti'n byw?** Braichmelyn.
- Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Un o'r Bala dirion deg.
- Pa dri pheth fasai'n dy disgrifio orau?** Cyfeillgar, gweithgar a hamddenol.
- Ers faint wyt ti yn aelod o'r côr?** - Tua 3 blynedd.
- Pa lais wyt ti?** Tenor cyntaf.
- Pam wnes di ymuno â Chôr y Penrhyn?** Gan fy mod wedi symud i'r ardal mi oedd ymuno yn gyfle da i gymdeithasu, ac mi wnaeth fy modryb ddweud fod gen i lais da hefyd. Hefyd, mi ges i fy annog i ymuno gan Alun Davies (Bas 1).
- Pa un ydi dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Dagrau, dwi wrth fy modd efo'r gân wreiddiol gan Eric Clapton. Mae trefniant y côr yn wych ac yn deilwng iawn o'r gwreiddiol.
- Pwy ydy dy hoff ganwr / cantores?** Trent Reznor, Americanwr sy'n canu, yn perfformio ac yn cyfansoddi caneuon poblogaidd a darnau i ffilmiau yn Hollywood a lleoedd eraill.
- Be ydi dy farn di am ganu pop?** Mi wnai wrando ar ganeuon pop yn y gwaith ond mae'n well gen i gerddoriaeth mwy trwm!
- Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** Mae'n reit anodd curo fy mherfformiad cynta hefo'r côr, sef

canu ar y pier yn Blackpool hefo GBO. Ond mi oedd Glastonbury yn brofiad anhygoel ac yn gyfle unwaith mewn oes.

- Pa ddiddordebau eraill sydd gen ti y tu allan i'r côr?** Rygbi, cerdded, Rygbi, coginio, Rygbi, a pheint tra'n gwyllo rygbi!
- Oes yna rywbeth fasa ti'n hoffi gweld y côr yn wneud?** Mae'r côr yn weithgar iawn ac yn gwneud llawer o wahanol bethau. Yr hyn faswn i'n hoffi weld ar y funud ydi cyfle i ni ddod at ein gilydd i ganu unwaith eto.
- Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r cor?** Mae ymuno â'r côr wedi bod yn brofiad positif iawn. Dwi wdi gwneud llawer o ffrindiau newydd ac yn teimlo fel rhan mawr o'r gymuned ym Methesda ar ôl ymuno.



Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod ZOOM o Bwyllgor Ymgyrchu Plaid Lafur Arfon ar ddechrau'r mis, gyda chynrychiolaeth o aelodau lleol yn bresennol ar gyfer etholiad Cymru fis Mai. Trafodwyd nifer o faterion efo'r ymgeisydd Iwan Wyn Jones o Ddyffryn Nantlle.

Derbyniwyd gwybodaeth bod deddf tai newydd Llywodraeth Lafur Cymru (a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid) wedi cael ei chymeradwyo. Hefyd, bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gael economi gwyrddach, gyda chynllun gweithredu i ddiogelu gwaith-cynhyrchu yn y dyfodol. Yng Nghyllideb Cymru, clustnodwyd arian i leihau trethi busnes am flwyddyn arall ac i gefnogi busnes i recriwtio mwy o brentisiaid. Rhoddwyd bonws i weithwyr iechyd a gofal.

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

📱 @CynghorwyrDyffrynOgwen
📺 @PlaidCymruOgwen

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk








Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

O gofnodion Cyngor Llanddeiniolen

Canllaw ger Beran Mis diwethaf anfonwyd llythyr i'r Adran Briffyrdd ac i'r Adran llwybrau, yn nodi fod y llwybr sydd yn dod allan ger garej Beran o Caermynydd angen canllaw ac efallai barrier gan ei fod yn dod allan ar ochor lôn hynod o brysur. Derbyniwyd ymateb bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu ymweld â'r llwybr, ynghyd a gwneud arolwg ar y tarmac ar ben y llwybr.

Ty'n Llidiart i Rallt Pentir Anfonwyd cais am arwyddion Anaddas i Gerbydau gael eu gosod yma gan fod cerbyd Amazon wedi mynd yn sownd ar y ffordd a bu rhaid cael tractor i'w dynnu allan. Mae'r bobl leol yn gawybod fod y llwybr yn anaddas i gerbydau mawr ond mae'n debyg mai gyrrwr o'r cyfandir oedd hwn yn dilyn Google maps!

Ceisiadau cynllunio

Bwthyn Lôn Plas Cais ar gyfer trosi adeilad allanol presennol i greu anecs ategol i'r adeilad.

Tir ym Mro Rhiwen Datblygiad preswyl

o 4 tŷ fforddadwy ynghyd â mynedfeydd cysylltiedig â pharcio.

Cydymdeimlo Yn dawel yng nghartref gofal ym Mrynsiencyn a chynt o Borthaethwy yn 100 oed bu farw Nesta Carriigill. Fe'i magwyd yn Rhos Uchaf ac roedd yn briod â'r diweddar Albert. Roedd yn chwaer i Edwina a'i diweddar frodyr a chwiorydd. Roedd yn athrawes wrth ei galwedigaeth ac wedi treulio blynyddoedd yn ysgol Hiraef, Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad at Einir a Hefin Williams a'r nithoedd a'r neiant eraill.

Bu i un arall a fagwyd yn Rhiwlas farw yn ddiweddar, yn 95oed bu farw Llew Jones o Dalybont. Mae'n debyg ei fod yn cael ei adnabod fel Llew Crosville ond i'w gyfoedion Llew Garreg y Gath fydd o am byth. Roeddwn yn gweld Enfys ac yntau yn lled aml yn Frongoch a holai bob amser am bobl Rhiwlas, roedd yn ffrindiau mawr â'r diweddar John Huw Evans. Cydymdeimlwn â'i briod, Avril, bu'r ddau yn briod am 72 o flynyddoedd a chofion hefyd at Avril a Meriel a'u teuluoedd.

Wedi cyfnod cymharol fyr yn Ysbyty Glan Clwyd bu farw John Ellis Jones, cymar Dawn a thad Shannon, Sammy, Sion, Skye, Shane a Seirian. Roedd yn wreiddiol o Llanllechid ond wedi ymsefydlu ers sawl blwyddyn bellach ym Mro Rhiwen. Moto beics a Thîm peldroed Lerpwl oedd ei ddiddordebau ac ar ddiwrnod yr angladd roedd nifer o

feicwyr yn ei hebrwng i'r Amlogsgfa, golygfa drawiadol iawn. Anfonwn ein cofion at Dawn a'r plant.

Rhestr fer gwobrau Tir na-n-og

Yn flynyddol y mae Cyngor Llyfrau Cymru yn dewis llyfrau ar gyfer gwobrau Tir na-n-Og. Mae dau gategori, plant ieuengaf a phlant uwchradd. Y tri llyfr ar gyfer uwchradd ar y rhestr fer yw Helynt gan Rebecca Roberts, Y Castell Siwgr gan Angharad Tomos a Llechi gan Manon Steffan Ross. Pob hwyl iti eleni eto Manon.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon (01248) 673616 Pwllheli (01758) 703000

Waw – am Wawr!

Fel mae bron pawb yn y byd yn gwybod erbyn hyn dw i'n mynd allan am dro yn gynnar bob bore ac mae rhywbeth i'w weld bob tro. Dw i'n dechrau'n gynharach erbyn hyn achos mae hi'n goleuo'n gynharach bob dydd. Mae'n braf bod allan i sylweddoli hyn achos mae'n arwydd gref bod y Gwanwyn ar y ffordd - y tymor mwyaf trawiadol o'r pedwar. Cyn bo hir mi fydd y byd yn llawn lliwiau a bydd ein calonnau'n codi ac mi ydym ni i gyd angen hynny!

Ychydig o ddyddiau yn ôl, munudau cyn toriad y wawr, mi nes i gau'r drws i ddechrau ar fy nhaith. Wrth droi'r cornel gyntaf welais i'r awyr yn goch uwch fy mhen, stribedi o gymylau coch yn creu patrwm dim ond byd natur all greu mor effeithiol. Dysgais nes ymlaen mai bai'r Sahara oedd hyn am fod gwyntoedd cryf wedi codi tywod i fyny i'r awyr a'i gludo'r holl ffordd i Gymru fechan.

Wrth i mi gerdded ymlaen roeddwn i'n cadw fy llygaid ar yr awyr a gweld y darlun yn datblygu. Dydy pethau fel hyn ddim yn parhau am yn hir, dim ond am ychydig o funudau. Cyn hir roeddwn wedi

cyrraedd y gornel ac roedd rhaid troi fy nghefn ar yr awyr coch. O fy mlaen i rŵan roedd yr awyr yn fwy pinc ond welais i hefyd rywbeth oedd yn edrych fel llwybr anwedd (vapour trail).

Meddyliais fod hyn braidd yn od achos does dim llawer o awyrennau yn yr awyr y dyddiau yma ac roeddwn i'n syllu ar hyn er mwyn trio gweithio allan beth oedd o. Yn raddol roedd lliwiau'n datblygu a sylweddolais fod i'n syllu ar enfys yn ffurfio. Dyma fi'n sefyll yng nghanol y lôn yn syllu ac yn gweld y bwa yn ffurfio. Roedd y profiad yn drawiadol! Mi oeddwn i'n gallu gweld bod y goes chwith yn cyrraedd y ddaear rywle ar y traeth ond yn fwy o ddiddordeb i mi oedd ble oedd y goes dde yn cyrraedd y ddaear! Mae'n anodd credu ond roedd y goes dde yn siŵr o fod yn cyrraedd y ddaear yn fy ngardd cefn. Wel am lwc ynte! Mi fydda i'n siŵr o gofio mynd allan efo rhaw yn syth ar ôl cyrraedd adref. O'r diwedd mi fydda i'n gyfoethog dros ben.

Treuliais weddill fy nhaith yn breuddwydio am beth fydda i'n gallu

gwneud efo'r holl gyfoeth. A fydda i'n cael car newydd? Na, dw i ddim yn meddwl, dw i'n ddigon bodlon efo fy nghar. Prynu tŷ newydd? Na, doedd hynny ddim yn apelio chwaith, mae'r coed afalau nes i blannu pum mlynedd yn ôl wedi aeddfedu ac yn ffrwytho. Mynd ar wyliau i'r ynys gorau yn y byd? Ia, dyna be wna i a bydd gwyliau yn sir Fôn ddim yn gostus chwaith. Sorted! Fel mae'r Sais yn dweud.

Rywbeth i edrych ymlaen amdani ynte!

Wel roeddwn i ar y ffordd i'r cwt i nôl y rhaw pan welais dwll mawr yn y lawnt. O na! Mae rhywun wedi cyrraedd o'm mlaen i! Dyma fi'n sefyll ac yn syllu ar y twll gwag yn y lawnt, hynny yw roedd yn wag heblaw am yr amlen ar y gwaelod. Plygais i lawr i'w godi, agorais a thynnu allan neges fer.

"Annwyl Rob. Diolch am gymryd dy amser ar dy daith cerdded y bore 'ma a gobeithio nad wyt yn meindio i fi a'r tylwyth dwyn dy drysor. Mae'n rhaid i ti gofio bod rhai pobl yn dlotach na chdi ac ein gwaith ni yw edrych ar ôl y bobl yna.

Pob hwyl i ti

Twm Teg a'r Tylwyth"

Difyrion Digidol gyda Deian ap Rhisiart

Cofnodi hanes bro yn ddigidol

Mewn colofn flaenorol fe wnes i fwrw golwg dros yr adnoddau hanes sydd ar gael ar-lein er mwyn chwilota eich hanes lleol a chenedlaethol. Y tro hwn dwi am drafod sut y gallwch gofnodi'r hanes eich hun a chreu eich darn bach o hanes, trwy gymorth offer digidol. Y ffordd orau a mwyaf hwylus i wneud hyn yw trwy greu stori ddigidol. Yn syml, stori ddigidol ydy ffilm fer yn cofnodi digwyddiad. Gall fod yn gyfweiliad gydag unigolyn difyr a diddorol yn trafod pob math o bynciau, yn trafod gwrthrychau/lluniau sydd o bwysigrwydd hanesyddol. Fe allith fod yn hel atgofion am deulu, am gyfnod penodol mewn bywyd, yn ddiwyddiad neu'n brofiad yn y gorffennol sy'n bwysig i chi neu'r unigolyn, ble bydd arwyddocâd ehangach.

Mae'r syniad o greu straeon digidol wedi bod yn boblogaidd ers rhai blynnyddoedd. Dwi'n cofio bron i ddegawd yn ôl, roeddwn i'n mynd o amgylch neuaddau pentref yn cynnal cyrsiau straeon digidol gyda WEA Cymru. Er mwyn gwneud y gwaith, roedd gynnon ni lond car o offer, yn cynnwys gliniaduron, recordydd sain, camera fideo proffesiynol ac ar ben hynny roedd rhaid cael y feddalwedd i olygu'r cyfan. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach mae'n bosib gwneud hyn i gyd, yn diddraftherth gyda'ch ffôn clyfar.

Cymeriadau a digwyddiadau

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a fynychodd y cyrsiau hyn yn bobl wedi ymddeol, ac roedd ganddynt stôr eang o atgofion am eu magwraeth. Hefyd roedden nhw'n gyfarwydd â'r hen enwau lleoedd neu hanes cymdeithasol yr ardal leol. Trafodwyd testunau difyr iawn yn amrywio o hanes Robin Jac neu'r Felten Goch - y gyrrwr beic modur adnabyddus, i ffilm yn hel atgofion am dad oedd yn ganwr opera. Yr hyn sy'n bwysig i'w gofio yw bod gan bawb stori i'w hadrodd, a bod yr hanesyn lleiaf yn gallu bod yn aur i haneswyr cymdeithasol y dyfodol. Dyna pam fod creu stori ddigidol yn werthfawr tu hwnt ac mae Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan Storiol ym Mangor yn ddiweddar wedi bod yn chwilio am brofiadau pobl yn y cyfnod clo. Mewn deng mlynedd, mi fydd profiadau pobl yn y cyfnod clo yn hynod o bwysig ac arwyddocaol.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd

cyfresi fel Cefn Gwlad a roddodd oriau o archif fideo i ni yn cofnodi ymweliadau Dai Jones i gartrefi gwledig dros y deugain mlynedd diwethaf. Mae'r cyfweiliadau hynny'n gofnod amhrisiadwy o fywyd cefn gwlad yng Nghymru ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. A'r hyn sy'n wych y dyddiau hyn, fe allwch chi fod yn ymchwilydd eich hun neu'n gynhyrchydd ffilm yn cofnodi'r hanes drwy gyfweiliadau gyda phobl yr ydych yn ei hystyried yn hanesyddol bwysig i'ch bro, neu i Gymru. O ran lles iechyd, mae'n gyfle da hefyd i hel atgofion gyda phobl sy'n byw gyda dementia er enghraifft. Wrth gwrs, ar hyn o bryd, mae'r cyfyngiadau yn rhwystr i ni allu gwneud hyn ond gydag amser, gobeithio y gallwn ddechwyn i gyfweiliad â phobl wyneb yn wyneb.

Apiau i'ch helpu

Er mwyn gallu creu stori ddigidol wrth gwrs, mae angen apiâu sy'n gwneud y gwaith ar eich rhan. Os mai Apple yw eich ffôn neu dabled, chwiliwch am Adobe Spark yn yr App Store a'i llwytho, neu ar gyfer ffôn neu dabled Android, chwiliwch am YouCut neu PowerDirector yn y Play Store. Mae'r apiâu hyn yn gymharol hawdd iawn i'w defnyddio, ac ewch ati i arbrofi gyda hwy. Gyda'ch fideo personol, mae yna ddewis i ychwanegu cerddoriaeth, troslais, delweddau, geiriau testun, fideos ac mae posib golygu clipiau o fewn un ffilm. Yn PowerDirector er enghraifft, does yna ddim cyfyngiad am ba mor hir ydi'r ffilm, ond wrth gwrs, mi gymerith fwy o amser i'w lwytho fel cyfanwaith wedyn i'ch ffon. Rhowch dro arni! Os ydych chi'n adnabod rhywun, efallai yn aelod o'ch teulu sydd gan stori ddifyr i'w hadrodd, ewch ati i greu stori ddigidol i roi'r hanes llafar ar gof a chadw - gellir gwneud hynny dros alwad fideo Zoom hyd yn oed! Mae yna gymaint o'n hanes llafar yn mynd yn angof, felly peidiwch ag oedi, ewch ati! Pob lwc gyda'r cynhyrchu a'r hel hanes.

Adobe Spark <<https://spark.adobe.com/>>

Power Director: tinyurl.com/3ydb32ar
YouCut <https://play.google.com/store/apps/details?id=com.camerasideas.trimmer&hl=en_GB&gl=US>

Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed ac angen hyfforddiant am ddim i greu stori ddigidol, mae croeso i chi e-bostio Cymunedau.Digidol@wales.coop

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATL.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Cofiwch Dryweryn - Cofiwch Kenya

Wythnos Cymorth Cristnogol 10-16 Mai 2021

Mae i godi argae er mwyn cronni dŵr gysylltiadau poenus i ni yma yng Nghymru. Nid mater o hanes ydyw chwaith; mae'n gallu brifo o hyd. Mae'r dywediad 'Cofiwch Dryweryn' yn parhau i gorddi teimladau negyddol ynom.

Pam? Am inni wybod fod gweithred anghyfiawn wedi ei chyflawni yn erbyn trigolion Cwm Celyn. Am fod corfforaeth fawr wedi sathru ar hawliau, dyheadau a theimladau pentrefwyr. Am fod dymuniad cenedl gyfan wedi ei hanwybyddu.

Mewn rhannau eraill o'r byd, fodd bynnag, mae codi argae er mwyn cronni dŵr yn weithred o gyfiawnder. A'r weithred gyfiawn honno fydd stori ganolog Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Yn Kenya, mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar y tywydd - fel y mae trwy'r byd, wrth gwrs. Ond mewn gwledydd tlawd, mae'r effeithiau yn llawer gwaeth. Arferai'r tywydd fod yn rhagweladwy, oedd yn caniatáu i'r ffermwr hau a medi yn dilyn patrwm cenedlaethau. Bellach, mae patrwm y tywydd wedi newid yn fawr. Ceir sychder difrifol ac yna gyfnod o lawogydd trwm sy'n arwain at lifogydd.

Mae ffermio mewn sefyllfa o'r fath bron yn amhosibl ac mae pobl yn marw o newyn o'r herwydd. Trwy bartner lleol mae Cymorth Cristnogol yn helpu i godi argaeau. Golyga hyn fod posibl cronni dŵr y gellid ei ddefnyddio ar adegau sych. Sef yr union

Plant yn cario dŵr o'u hargae yn Kenya



reswm pam y codwyd argaeau yng Nghymru wrth gwrs. Pam felly fod codi argae mewn pentref yn Kenya yn wahanol?

Codi argae gyda chaniatâd y gymuned leol y mae partner Cymorth Cristnogol. Gwneud hynny gyda'r gymuned leol, wrth i'r pentrefwyr eu hunain helpu yn y gwaith. Ac efallai yn bwysicach na dim, codi'r argae er budd y gymuned leol a wneir. Y nhw sydd berchen yr argae; y nhw sydd berchen y dŵr.

Oherwydd hyn, gweithred gyfiawn yw codi argae yn Kenya.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (10-16 Mai) bydd eglwysi ar hyd a lled Cymru yn brysur yn codi arian tuag at brosiectau tebyg. Prosiectau fydd yn rhoi help llaw i bobl dlota'r byd wrth iddynt ymdrechu i godi eu hunain allan o dlodi.

Beth am ymuno yn y gweithgarwch? Cysylltwch â'ch eglwys leol i weld be sy'n digwydd yno neu ewch draw i wefan Cymorth Cristnogol am fwy o wybodaeth.

<https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christian-aid-week>

Rhyddhau albwm newydd

Yn ôl Ogwen360 mae Gruff Rhys, prif-ganwr y Super Furry Animals wedi cyhoeddi y bydd ei albwm nesaf yn cael ei rhyddhau ym mis Mai. Mae sengl gyntaf y record, 'Loan Your Loneliness' ar gael i'w mwynhau rŵan.

Bydd yr albwm diweddaraf, 'Seeking New Gods' yn cael ei rhyddhau ar label Rough Trade Record ar 21 Mai. Mae'n dilyn albwm 'Pang!' a ryddhawyd gan Gruff yn 2019.

Mynydd Paektu

Wrth gyhoeddi'r newyddion ar ei dudalen Facebook, dywedodd Gruff: "Recordiwyd yr albwm yn dilyn taith yn yr UDA dro yn ôl gyda'r grwp Babelsberg- Kliph, Osian a Steve, ynghyd â lleisiau ychwanegol gan Lisa a Mirian a cymysgwyd gan Mario C a gymysgodd 'Candylion' a 'Hotel Shampoo' hefyd.

"Dechreuodd fel cofiant mynydd yn nwyrain Asia – Mynydd Paektu, ond yn y pen draw daeth yn fwy-fwy personol.



Gruff Rhys

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

James Griffiths cyn gyfeilydd Côr y Penrhyn yn hel atgofion am gyfnod hapus iawn yn ei fywyd

Diddorol tu hwnt oedd darllen hanes cyfarfod blynyddol Côr y Penrhyn yn y Llais mis Chwefror yn enwedig gan fy mod yn cofio'r adeg yn iawn.

'Roedd y cyfnod 1970 i 1987 ymysg y cyfnodau gorau yn fy mywyd - am ddau reswm, 'roeddwn newydd briodi yn 1969 ac yn 1970 cefais fy mhenodi yn Gyfeilydd Côr Meibion y Penrhyn. Cofiaf i mi dderbyn llythyr oddi wrth T. Caeron Roberts, Ysgrifennydd y Côr yn fy ngwahodd i fod yn gyfeilydd a minnau yn byw ym Methel ger Caernarfon ar y pryd. Es i Fethesda ar y nos Lun i gyfarfod aelodau'r Côr a chael derbyniad cynnes tu hwnt. Yr oeddwn yn adnabod sawl aelod yn barod, yn enwedig y rhai o Fangor fel Wyn Williams, Barry Wynne, ac yn y blaen. Hefyd, er ei fod newydd ymddeol o'r Côr erbyn hynny roedd, lfor Griffiths brawd hynaf fy nhad, wedi bod yn y Côr am flynyddoedd lawer ac roedd cysylltiad agos rhwng Bangor, yn enwedig ardal Hiracl â'r Côr. Yr oedd Ffrancon Thomas y cyn arweinydd, erbyn hynny, yn byw dros y ffordd i mi pan oeddwn yn byw yn Orme Road.

Cofiaf ddweud wrth y Pwyllgor y buaswn yn aros am chwe mis i weld sut y buasai pethau yn datblygu a'r canlyniad oedd aros yn y Côr am 17 mlynedd! Yr arweinydd newydd oedd Menai Williams, cerddor penigamp, ac er mai am bedair blynedd y bu hi yn y swydd fe ddysgais lawer drwy gyd weithio â hi ac fe gawsom nifer o gyngherddau cofiadwy iawn yn ystod ei harweinyddiaeth. Y perfformiad cyntaf i mi fel cyfeilydd oedd ym Mhrifysgol Bangor gyda chyngerdd i'r 'English Speaking Union', cymdeithas fyd eang oedd yn cynnal eu cyfarfod blynyddol ym Mangor y flwyddyn honno. Yr oeddwn yn bur nerfus ond dyna fo, felly roedd hi bob tro yr oeddwn yn chwarae'n gyhoeddus ac mae'n parhau felly hyd heddiw ond ar ôl cychwyn byddwn bob tro yn magu hyder. Cofiaf i Rowland Wyn Jones, olynnydd Menai fel Arweinydd ddweud wrthyf cyn cychwyn cyngerdd yn Aberdeen un tro a minnau ar fin cyfeilio i'r unawdydd pan ddwedais wrtho fy mod yn teimlo'n nerfus ond ddim yn gwybod pam. E ateb oedd, "Y diwrnod nad wyt yn teimlo felly yw'r diwrnod i ti bacio i fyny," meddai. Anghofiais i byth mo'i eiriau, sy'n berffaith wir.

Ar y pryd yr oeddwn yn Is Organydd Eglwys Gadeiriol Bangor ac wedi hen arfer cyfeilio i wasanaethau esgobaethol a chenedlaethol ond yr oeddwn serch hynny yn parhau i deimlo reit annifyr cyn bob achlysur.



Côr y Penrhyn 1983. Llun trwy garedigrwydd James Griffiths

Fel y dywedais eisoes yr arweinydd nesaf oedd Rowland Wyn Jones, Pennaeth cerdd y Coleg Normal. Yr oeddwn yn adnabod Rowland yn dda iawn. Yntau fel Menai yn gerddor gwych ac fel y dywedwn ar lafar gwlad, "yn gwybod ei stwff". Mae'n rhaid dweud fod y ddau ohonom wedi ffraeo sawl tro yn ystod ei gyfnod, ond bob amser yn anghofio pam ac yn parhau'n gyfeillion nes iddo ymddeol. Cofiaf un noson a minnau wedi teithio i Fethesda i'r ymarfer o Lynllifon, lle roeddwn yn cymryd cwrs cerdd i blant am yr wythnos ac am ryw reswm nid oedd siâp o gwbl ar y canu - y Côr yn mynd un ffordd, Rowland rhyw ffordd arall a minnau yn y canol heb syniad sut i ddal y ddau! Dyma Rowland yn stopio'r canu, troi ataf fi a dweud "Mae'n rhaid i ti gadw fyny efo fi" a hyn yn gyhoeddus o flaen pawb. Nid wyf yn adnabyddus fel person amyneddgar a chodais yn syth, gan gau caead y piano a dweud wrtho, "Chwaraea fo dy hun felly," a cherdded allan ac yn fy ôl i Lynllifon!

Bore wedyn, pw y ddaeth yr holl ffordd i Lynllifon i ymddiheuro ond Rowland.

Wrth gwrs, arweinydd enwocaf y Côr oedd Ffrancon Thomas ac ychydig ar ôl fy mhenodi bu raid i mi gyfeilio i achlysur pwysig, sef anrhydeddu Ffrancon, oedd newydd ymddeol fel arweinydd, mewn cyfarfod yng Nghapel Jerwsalem. Talwyd teyrnged iddo gan James Williams, Pennaeth Cerdd y BBC ym Mangor ar y pryd. Byddai Ffrancon yn cyfeilio yn wythnosol i Wythawd James Williams mewn recordiad o wasanaeth dyddiol ar y radio a hynny yn Eglwys St. Mair Bangor (gwaith a wnes innau ar ôl ymddeoliad Ffrancon).

Nid oedd James Williams yn greadur hawdd gwneud â fo a chofiaf i Ffrancon adrodd hanes lle stopiodd James y canu a chwyno wrth Ffrancon bod gormod o "Diapason" ar yr offeryn, sef un o stops pwysicaf organ. "Iawn" meddai Ffrancon gan gau'r stop, a chyn ail ddechrau canu, tynnu'r stop allan eto. "Gwell sŵn o'r hanner!" meddai James Williams.

Yn ystod cyfnod Rowland Jones y cafwyd record gyntaf y Côr a hwnnw o hen gapel Park Hill neu Lônpopty, Bangor lle yr oedd organ wych o wneuthuriad y cwmni byd enwog Willis. Hefyd 1977 oedd y flwyddyn y gwnaed cysylltiad rhwng Seindorf Notzingen yn yr Almaen â'r Côr a hefyd y tro cyntaf i'r Côr presennol deithio dramor, sef i'r Almaen.

Yr wyf yn dal mewn cysylltiad â chyfeillion a wnaed yr adeg honno - derbyniad e-bost yn aml iawn o Notzingen.

Ar ôl ymddeoliad Rowland Jones daeth Margaret Owen yn Arweinydd ac fe gafwyd cyfnod diddorol arall yn ystod ei chyfnod hi fel Arweinydd. Pan ymddeolodd hi fe wnes innau ymddeol hefyd maes o law a dyna ddiwedd ar gyfnod hynod o hapus. Byddaf yn edrych yn ôl ar y cyfnod hwnnw'n aml iawn, yn enwedig fel bydd y blynyddoedd yn mynd heibio.

Yn ddiweddar, cefais fy anrhydeddu gan y Côr sef cael fy ethol yn Aelod Er Anrhydedd. Un o'r gweithgareddau y byddaf yn eu cwblhau cyn gynted ag y bydd y pla presennol heibio fydd ymweld â'r côr am un o'r troeon cyntaf ers dod oddi yno yn 1987, i wrando ar yr hogiau - llawer iawn ohonynt oedd yno yn ystod fy nghyfnod, ac fel fi wedi newid cryn dipyn o ran edrychiad!

Achub Hen Gapel Tom Nefyn

Faint o weithiau mae rhywun wedi mynd heibio 'hen gapel Tom Nefyn' ar ochr y ffordd ym Mhystyll, Llŷn, a dyfalu "Be' ddaw o'r hen gapel, sgwn i?"

Mae'r hen gapel yn wag ers blynyddoedd bellach ac mae'r adeilad wedi dirywio'n arw. Fodd bynnag, mae'r perchnogion presennol wedi cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd i'w droi'r dŷ gwyliau a bydd yn cael ei werthu mewn ocsiwn gyhoeddus a drefnir ar y cyd gan gwmni Dafydd Hardy a chwmni Auction House South Wales. Fel arweiniad i ddarpar-brynwyr, nodir y swm o £120,000.

Dan arweiniad yr ymgyrchydd iaith, Osian Jones, mae cronfa wedi ei hagor er mwyn ei brynu gyda'r gobai'th o'i droi'n ganolfan gymunedol, a gellir cyfrannu ati ar-lein drwy'r ddolen hon:

<https://www.gofundme.com/f/cronfa-capel-bethania-pistyll> neu drwy gwsglo 'Cronfa Capel Bethania Pistyll'.

Mae'r gwerthwyr wedi cytuno i ohirio'r ocsiwn am ychydig wythnosau er mwyn rhoi cyfle i'r gronfa gynyddu.

Dechreuodd cysylltiad y Parchedig Tom Nefyn Williams â Chapel Bethania (MC) ag yntau'n fachgen pan symudodd ei deulu o gyffiniau Nefyn i Fodeilas, Pistyll oddeutu 1900. Ar ôl gadael ysgol yn 14 oed, bu'n gweithio yn chwarel ithfaen yr Eifl am bum mlynedd. Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf a bu'n gwasanaethu yn y Dardanelles, Ffrainc, yr Aifft a Chanaan. Fe'i clwyfwyd yn y rhyfel a dychwelodd yn heddychwr brwd a phenderfynu mynd i'r weinidogaeth. Cafodd ei ordeinio yn 1925 gan wasanaethu yn y Tymbl a Rhosesmor cyn dod i Ddyffryn Ogwen.



"... rydym yn grediniol bod rhaid achub y capel pwysig hwn i berchnogaeth gymunedol, er budd y gymuned leol a'r genedl Gymreig."

Bu'n weinidog yn y Gerlan rhwng 1937 a 1946, ac mae sawl atgof a hanesyn amdano sy'n dal yn fyw. Mae un cofnod arbennig amdano sy'n amlygu ei ymrwymiad yn ei ofalaeth. Bob bore, a chwarelwyr y Gerlan wedi mynd i'r chwarel, byddai Tom Nefyn yn datgloi drws festri'r capel yn union pan ganai corn y chwarel am hanner awr wedi saith, ac yn mynd i mewn i weddio dros y chwarelwyr. Yn y soned 'Y Cynr Hyrddod' yn *Cerddi'r Gaeaf*, mae R. Williams Parry yn mynegi ei werthfawrogiad "wrth weld rhawd / Blygeiniol bugail unig tua'r deml / I ymbil dros y gweithiwr yn y graig / Gan gariad sydd

yn fwy na chariad gwraig."

Wrth sefydlu ac agor y gronfa i achub hen gapel Tom Nefyn ym Mhystyll, dyma neges Osian Jones:

'Yn dilyn y newyddion diweddar bod hen gapel Bethania ym Mhystyll, Llŷn – capel y Cristion, y Cymro, y Gwerinwr a'r Brawdgarwr, Tom Nefyn – yn cael ei werthu mewn ocsiwn gyhoeddus, gyda chaniatâd cynllunio i droi'r hen gapel yn dŷ haf, rydym yn grediniol bod rhaid achub y capel pwysig hwn i berchnogaeth gymunedol, er budd y gymuned leol a'r genedl Gymreig ac er mwyn diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol.

'Rydym yn grediniol bod modd cadw'r adeilad pwysig hwn yn nwylo'r genedl, ac y byddai gweld trosi hen gapel Tom Nefyn, un a weithiodd ar hyd ei oes yn erbyn gormes ac o blaid creu cartrefi diogel i weithwyr Cymru, yn dŷ gwyliau yn sarhad ar ein gwlad.

'Mae ardal Pistyll a gogledd-orllewin Cymru'n ehangach yn wynebu dyfodol ansicr iawn, gyda thrigolion lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, a hynny er mwyn diwallu anghenion trachwantus y bobol hynny sydd am brynu tai ac eiddo fel tai haf i'w defnyddio am ychydig o wythnosau'r flwyddyn.

'Os byddwn fel cronfa yn llwyddo yn ein hamcanion, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol er mwyn sefydlu perchnogaeth gymunedol, gydweithredol ar yr adeilad hanesyddol hwn.'

Os na lwyddir i brynu'r capel, bydd yr holl arian yn y gronfa yn cael ei ddychwelyd i'r cyfranwyr.

Y bardd a'r llenor, Ieuan Wyn, ymhlith tri i'w hurddo

Llongyfarchiadau calonnog i'r Prif-fardd Ieuan Wyn o'r Carneddi ar gael ei urddo fel Cymrawd er Anrhydedd o'r coleg Cymraeg cenedlaethol mewn cyfarfod rhithiol o Gynulliad Blynyddol y Coleg a gafodd ei gynnal ar Fawrth 16eg.

Fel rhan o Gynulliad Blynyddol y Coleg, fe urddir unigolion yn Gymrodyr er Anrhydedd er mwyn cydnabod eu cyfraniadau allweddol i addysg uwch cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd. Mae cyfanswm o 24 o unigolion wedi eu hurddo yn Gymrodyr gan gynnwys y diweddar Dr John Davies, Dr Meredydd Evans a'r Athro Gwyn Thomas.

Yr Athro Mererid Hopwood, Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, a gyflwynodd Ieuan ar gyfer derbyn yr anrhydedd hon. Meddai'r Athro Hopwood:

"Mae Ieuan Wyn yn fardd a llenor nodedig, ac enillydd y gadair yn Eisteddfod



Genedlaethol Porthmadog yn 1987. Dyfernir y gymrodoriaeth hon iddo am ei waith gwirfoddol fel ymgyrchydd a'i ymrwymiad ymarferol wedi hynny i hyrwyddo cenhadaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol."

Mae Ieuan wedi bod yn weithgar tros y blynyddoedd yn hyrwyddo addysg Gymraeg ar bob lefel a bu'n ymgyrchydd brwd tros sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn darparu ystod eang o gyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg I bobl ifanc trwy Gymru.. Bu hefyd yn gwasanaethu fel aelod annibynnol o Fwrdd Cyfarwyddwyr sy'n gosod cyfeiriad strategol a threfniadau llywodraethiant y Coleg am ddau dymor o bedair blynedd hyd at 2019. Anrhydedd a chlod teilwng iddo am ei holl waith yw'r gydnabyddiaeth hon o'i ymroddiad i'r achos a'i gyfraniad diflino tros y blynyddoedd.

Hanes Wil Bach

Golygwyd ac addaswyd gan Derfel Roberts

CYFLWYNIAD

Roedd y diweddar Wil Williams (1919 - 2011) – Wil Bach i bobl ardal Bethesda ond Wil Rhwyd i bobl Caergybi – yn frodor o Ddyffryn Ogwen ac yn gweithio fel dyn signal ar y rheilffordd yn Y Fali, Sir Fôn. Yn y 70au byddwn yn cael galwad ffôn gan Wil o'r bocs signal bron bob nos Sul. Cawn hanesion hen gymeriadau Bethesda i gyd ganddo. Ar lafar roeddwn i'n derbyn yr hanesion hynny ac ni lwyddwyd i gynnwys fawr ddim ohonynt, os o gwbl, yn Llais Ogwan. Er hynny, roedd gwranddo ar Wil yn traethu am 'yr hen ddyddiau' yn brofiad difyr tu hwnt a bellach mae'r atgofion ar glawr a chawn eu gweld yma. Diolch i'w nai, George Owen am gadw a rhannu'r atgofion hyn.

D.R.



Wil Williams (Wil Bach) yn y fyddin.

fod Elfed ar yr un plattform â fi'r pawns dychrynlyd hwnnw a meddyliais am eiriau ei emyn enwog,

“Rho im yr hedd na wŷr y byd amdano”

Er bod y pawns stormus hwnnw wedi aros efo fi mae'n well o lawer gen i gofio'r pawns tesog o haf ym mhorthladd Caergybi pan oedd y Princess Maud ar fin cychwyn ar ei thaith i Dun Laoghaire a minnau'n digwydd bod yn gasglwr tocynnau ar y ramp gyda fy nghyfaill. Gwelais driawd o'r cymeriadau mwyaf diddorol a welodd Tregarth yn y ganrif hon yn nesáu at y gangwê. Y tri oedd Wil Penffridd, Harri Pencantwr a Huw Jones, Groeslon, brawd fy mam. Sibrydais yng nghlust fy nghyfaill, “gad y tri yma i mi mêt” gan dynnu pig fy nghap yn dynn dros fy llygaid fel na allent fy adnabod yn hawdd. Fel roedd y tri'n dynesu ataf dyma fi'n eu cyfarch yn yr iaith fain, “Tickets please gentlemen, hurry along we're not here all day let's see your tickets”. Wel, dyna bantomeim efo dau ohonyn nhw'n bustachu yn eu pocedi am y tocynnau a Harri'n sylu'n gas arna i heb ddweud yr un gair. Yna, cafodd Wil Penffridd hyd i hen docyn bws a Harri a Huw wedi cael gafael ar docynnau nad oeddynt a wnelo dim byd ag unrhyw relwê. Yna, mi glywais Wil Penffridd yn dweud rhwng ei ddannedd, “Rhyw hen ddiawl o Wyddel cas ydy hwn,” ac ar hynny fedrwn i ddim dal dim mwy. Codais big fy nghap i fyny i'w iawn le a dyma Wil gyda'r atal dweud oedd yn nodweddiadol ohono'n dweud, “A...A... W...Wil, hogyn Nel ydi hwn.” Wel sôn am hwyl a chroeso ges i gan y tri gyda Wil Penffridd yn gwasgu fy nwylo'n dynn, “Yr hen gythral bach direidus,” meddai ac mi ges y fraint o roi help llaw i dri o halen y ddaear o fro fy mebyd. Fe gyfoethogwyd tir y Gwyddel yn fawr pan droediodd y tri yna ar yr Ynys Werdd.

Pennod 4

Pwy all anghofio'r llong honno, y '*Princess Maud*', oedd yn gweithredu rhwng Caergybi a Dun Laoghaire yn niwedd y pedwardegau a dechrau'r pumdegau? Ysgafnhau baich yr Hibernia a'r Cambria oedd ei dyletswydd ond bu'n gweithio fel llong gludo milwyr adeg y rhyfel. Cafodd ei llysenwi'n “Misery Ship” gan y milwyr cyffredin oherwydd ymddangosai fel pe ar ei gorau pan oedd y sowldiwr i gyd yn dioddef o salwch y môr. Yn yr atgofion hyn rydw i'n cofio yn nes ymlaen yn ei gyrfa pan laniodd hi un diwrnod stormus anghyffredin. Pan ddaeth y Princess Maud i mewn i harbwr Caergybi chwe awr yn hwyr wedi iddi golli ei ffordd yn llwyr ar y môr mawr, anghofia i byth y wedd oedd wynebau'r criw a'r teithwyr gyda phob un wedi bod yn sâl môr. Fel porter ar y plattform y diwrnod hwnnw roeddwn i wrth law i roi cymorth i lawer un i fynd ar y trenau. Roedd pawb yn edrych fel cyrff a'r unig beth i'w gwahaniaethu oedd y ffaith fod y rhain yn symud. Roedden nhw i gyd wedi cael ysgytiad ofnadwy ar ôl bod am naw awr ar y môr mewn storm erchyll a welais i erioed y fath olygfa na chynt nac wedyn a diolch am hynny. Yn fwy na dim yr hyn darodd fy llygaid oedd gweld merch ifanc yn llwyd iawn ei gwedd gyda baban bychan yn ei breichiau yn cysgu'n dawel mewn siôl gynnes a'i mam mor egwan ei gwedd. Wrth sylwi ar y baban dychmygais

Elusen Ogwen – arian i brosiectau cynladwyedd lleol

Pan sefydlwyd Ynni Ogwen roedd bwriad sefydlu elusen a fyddai'n dosbarthu elw o'i gynlluniau ynni ar gyfer achosion da yn lleol. Bellach mae Elusen Ogwen wedi'i sefydlu ac rydym yn falch o fedru gwahodd ceisiadau ar gyfer 2021-22.

Mae'r Elusen eisiau cefnogi cynlluniau ym maes cynaliadwyedd a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau Dyffryn Ogwen. Mae'n medru cyfrannu at brosiectau cyfalaf a referniw sy'n bwriadu gwneud y canlynol:

- Lleihau tloidi tanwydd a chymdeithasol
- Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Hybu trafniadaeth gynaliadwy a theithio actif
- Arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol

Am ragor o wybodaeth a dogfennau ymgeisio ewch i wefan ogwen.cymru neu cysylltwch ag elusenogwen@gmail.com os hoffech chi sgwrs efo ni yn gyntaf.

TAIR GROES I'R BLAID!

Etholaeth Rhanbarth

Comisiynydd Heddlu a Throseddau

6 MAI 2021
O BLAID
CYMRU

 Plaid Cymru
Party of Wales

Hysgwydwyd gan: Mr M Phillips ar ran Plaid Cymru,
7 Gwynfor, Llys Anser, Glanfa'r Iwa-ydd, Caerdydd, CF10 4AL

CHWILAIR



CHWILAIR EBRILL

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	P	L	A	S	Y	N	R	H	I	W	S	H	E	I	M	G	V	H
M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	C	Q	U
S	O	F	G	R	P	Y	Q	Z	G	H	R	H	C	U	M	W	A	N	O
S	Y	R	I	E	A	S	Z	U	A	T	F	D	C	X	U	P	S	W	R
H	E	C	Q	H	R	W	E	F	H	O	Y	A	E	E	G	E	T	O	M
H	E	G	P	T	T	D	O	C	B	B	S	C	U	U	J	P	E	L	T
M	I	V	O	V	D	D	D	G	C	T	B	B	F	R	F	Y	L	D	O
G	J	V	I	N	Y	I	I	I	E	R	R	X	I	M	H	W	L	D	T
T	O	S	K	L	T	D	O	L	D	P	W	R	C	M	K	N	P	Y	C
B	O	R	L	C	D	I	L	X	V	Y	S	R	Y	H	S	O	E	W	T
M	R	A	E	R	F	P	U	Y	J	I	F	D	Z	H	B	C	N	E	C
W	N	O	E	S	O	C	R	M	A	A	I	F	X	N	I	G	R	N	L
X	J	J	M	W	B	W	T	L	E	X	M	D	R	X	K	O	H	S	F
U	P	C	Y	Q	Y	O	U	I	L	F	E	R	Z	Y	Q	R	Y	A	R
O	C	S	T	D	G	D	W	S	L	Z	E	B	E	A	N	G	N	L	J
K	J	C	G	E	R	D	D	I	B	O	D	N	A	N	T	T	L	P	N
L	R	V	O	E	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	N	Q	U	L
F	S	V	B	T	T	Y	T	R	E	D	E	G	A	R	X	O	E	U	G
H	S	A	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	P	A	G	B

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDEG LLE DAN OFALAETH YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL i'w ddarganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

Dyma atebion Chwilair Mawrth:- Aberdaron; Arthog; Betws Garmon; Caerhun; Dolwyddelan; Eglwys-Bach; Trefriw; Harlech; Pwllheli; Llanllechid; Treforys; Caernarfon.

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Nyth y Gân

BRITHYLL

Hynod yw'r brithyll heini yn codi,

Yn cydio i besgi;
Y bwydo sionc heb oedi
Yn y llyn drwy len y lli.



FFRWD Y MYNYDD

Fe red drwy gwysi'n gyson,
A'i sŵn a glywn o bell,
Mor ystwyth dros ei gwely
Ni fedrem gael un well.

Ei sŵn sy'n cynnal canu,
A gwrando a wnawn ni
A gadael i'n meddyliau
Ymuno yn ei lli.

Y brwyn sy'n glynu'r glannau
Ac ysgwyd yno'n dwr,
Gan greu patrymau hynod
Hyd ochrau hon a'i chwr.

Am hir bu'n torri'r tirwedd,
A'i nerth a greodd graith
Ar dir oedd noeth ac uchel
Wrth fyned ar ei thaith.

CARREG ATEB

(profiad yn y mynydd erstalwm)

Rhoi cân fu'r garreg honno ar alwad
Ar ôl cael ei deffro;
Taniai drwy sŵn cytuno
A bu trwst i'n clyw bob tro.

Y LÔN GOED

(ar glawr Cerddi'r Gaeaf R. Williams Parry)

Cês gadw hen lun cysgodion o goed
Sy'n gadarn eu bonion;
Llydan, hir yw'r goedlan hon,
Mae'n gwllwm yn y galon.

NYTH Y DRYW

Anfarwol fu'r llafurio i'r tilaf
O'r teulu gael prifio;
Yno'n dwt y codwyd o
O dynnu plu amdano.

Dafydd Morris

COCH Y BERLLAN

Ei wedd sy'n llawn rhyfeddod, – a molwn
Fermiliwn ei wasgod;
O gael ei weld rhoddwn glod
I hud a dawn y Duwdod.



EIN BODOLAETH

Rhyfeddol ein bodolaeth, – ei olud
Di-ail a'i ragoriaeth;
Ysig ein creadigaeth,
Ysig, gwywedig o gaeth.

ONNEN

Unig y saif yr onnen – yn irfwyn
A hirfain ei changen;
Mewn haul a glaw mae'n llawen,
Mewn nerth y mae'n brydferth bren.

LLADD Y PLANT

(Iemen)

Tynnir y plant a'u henaid – yn yfflon
Gan hafflau eu lleiddiaid;
Ar goedd yn lleoedd y llaid,
Enbyd eu huffern tanbaid.

CEILIOG MWYALCH

Gwiw brufyn y deryn du – â'i sidan
Trwsiadus sy'n denu
Ar frig coedlan yn canu
Ag angerdd ei gerdd mor gu.

Y DIGARTREF

Heb gartref, heb 'r un nefoedd, – heb gysgod,
Heb gwsg ar ein strydoedd;
O'r ing sydd yn eu rhengoedd,
Heddiw'n flin fe roddwn floedd.

LLEUAD LAWN

Ti'r hen leuad uwch y wlad lom – â'th drem
Yn rhythu draw arnom,
Dyro in drwy'r hirnos drom
Dy rasol lewyrch drosom.

Y FRONFRAITH

Golud sy'nghalon bronfraith, – yn ei cân
Uwch y waun mae'i hafiaith;
O'i hagar ar foreugwaith
Daw â gwyrrth yn nodau'i gwaith.

Goronwy Wyn Owen

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth


CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**



Llais Ogwan

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

JAMIAU CARTRA'

(Amrywiaeth ar gael)

Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau





Enwau Dyffryn Ogwen

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu.

Braichmelyn

Mae defnyddio enwau rhannau o'r corff i ddisgrifio gwahanol rannau o'r tirwedd yn gyffredin iawn yn y Gymraeg. Mewn oes pan oedd pobl yn sylwi yn llawer mwy manwl ar y byd o'u cwmpas, ac yn gwahaniaethu'n fanwl rhwng gwahanol fathau o dirwedd, roedd gan bob rhan o'r tir o amgylch, a bob ffurf ar dirwedd ei enw, gyda'r enw ar bob ffurf yn cyfleu yn glir sut fath o dirwedd ydoedd. Yn aml defnyddid geiriau cyffredin am rannau o'r corff i i gyfleu math arbennig o le, neu dirwedd. Rydym yn sôn am droed mynydd, am dalcen tŷ, am lygad

y ffynnon, am 'ysgwydd bell y bryn', 'am 'fron' a 'bronnydd' (a'r gwrywaidd 'bryn', 'bryniau'), ac mae 'esgair', sef gair arall am 'goes', neu 'aelod o'r corff', yn gyffredin mewn enwau llefydd e.e. Esgair Llyn, yng nghân Dafydd Iwan, Esgair Ceiliog, pentref ger Machynlleth, Esgair Felen ar yr Elidir Fawr, ac yn y blaen.

Un o'r rhain yw braich, sef rhan o'r mynydd sy'n ymestyn allan o'i brif gorff.

Yn achos **Braichmelyn** mae'n debyg fod y 'melyn' yn disgrifio lliw cyffredinol oherwydd rhyw dyfiant oedd yn gorchuddio llawer ohono. Mae'n bosibl, hefyd, ond yn llai tebygol, y gallai'r 'melyn' gyfleu'r ffaith fod y bryn yn llygad yr haul am y rhan fwyaf o'r dydd; llai tebygol oherwydd mai 'gwyn' neu 'golau' a ddefnyddir amlaf am dir sydd yn llygad yr haul.

Yn 1768, mae '*braichmelyn*' yn ymddangos ar arolwg o diroedd y Penrhyn, fel darn o dir 30 acer oedd yn rhan o fferm sylweddol Tyn Twr. Erbyn 1841 roedd 55 ty o'r enw Braichmelyn yn yr ardal, gyda 350 o

bobl yn byw ynddynt, sy'n rhoi cyfartaledd o 7 person ym mhob ty. Mae natur y tai presennol, ynghyd â'u hagosrwydd at y Chwarel, yn dangos eu bod ymhlith y tai moel cyntaf yn y dyffryn. Efallai mai am y tai hyn, neu, yn sicr, am dai cyffelyb, y soniodd Gwallter Mechain yn 1815.

When the late Lord Penrhyn became possessed of his Caernarfonshire estate, the number of workmen did not exceed 60 But the number at length increased upwards 400. To accommodate this surplus of families, 40 cottages were built on the spot 1790-1800, containing 63 dwellings, many having double apartments.

Fel petaent yn balasau, gyda'u dwy ystafell. Eto, mae'n sicr eu bod, o'u cymharu gyda thai arferol gweithwyr y cyfnod.

One smoky hearth ... and one damp litter cell, for it cannot be called a bedroom, are frequently all the space allotted to a labourer, his wife, and four or five children.

Bethesda Ddoe a Heddiw

Fel y bydd nifer dda ohonoch wedi gweld ar Facebook yn ddiweddar, mae Clwb Camera Dyffryn Ogwen wedi bod yn casglu hen luniau o Stryd Fawr Bethesda fel rhan o brosiect i ddatlu daucanmlwyddiant Bethesda. Roeddem yn falch iawn o dderbyn dros 100 o luniau yn dyddio o 1813 i'r 1990au. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu.

Ar gyfer cam nesaf y prosiect, rydym wedi dewis 36 o luniau o blith y rhai a gyflwynwyd ac rydym yn gofyn i bobl gymryd lluniau cyfoes o'r un safleoedd, fel ein bod yn cael syniad o sut mae'r dref wedi newid. Gan fod y lleoliadau i gyd ar y Stryd Fawr, byddwch yn ofalus o'r traffig, sy'n amlwg yn drymach heddiw nag yn yr hen ddyddiau!

Er enghraifft, ar y chwith mae llun o

Dy'r Eglwys, a dynnwyd ym 1987. Cafodd yr adeilad ei ddymchwel wedi hynny a'i ddisodli gan dai Llain Deg ym 1995. Ar y dde mae fersiwn 'wedi'i diweddar' o'r llun:

Mae'r lluniau yr hoffem eu 'diweddar' i gyd bellach ar gael ar y wefan <https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/daucanmlwyddiant-bethesda/> ac wedi'u rhifo'n unigol.

Mae croeso i bawb gyfrannu at y prosiect, a gofynnir ichi e-bostio eich lluniau 'wedi'u diweddar' i **henbethesda@outlook.com** unrhyw bryd rhwng dechrau Ebrill a dydd Sul 16 Mai. Pan fyddwch yn e-bostio llun neu luniau atom, cofiwch nodi rhif y llun neu'r lluniau gwreiddiol ynghyd â'ch enw a rhif cyswllt. Bydd yr holl luniau a gyflwynir yn cael eu dangos ar wefan Ogwen.org.

Adran Agored

Yn ogystal â'r lluniau 'wedi'u diweddar', hoffem gael mwy o luniau o Stryd Fawr Bethesda heddiw (ar hyd yr A5 rhwng Bryn Bella a Phont Tŵr). Gallwch gyflwyno unrhyw luniau rydych wedi'u tynnu yn ddiweddar ar hyd y rhan hon o'r ffordd a byddwn yn eu rhoi ar dudalen ar wahân ar y wefan. Anfonwch e-bost i **henbethesda@outlook.com** cyn 16 Mai, gan nodi ADRAN AGORED yn llinell destun yr e-bost.

Bydd y lluniau i gyd yn cael eu dangos ar y wefan hyd at ddiwedd mis Mehefin. Os bydd angen cymorth pellach arnoch o ran adnabod lleoliadau neu anfon y lluniau, e-bostiwch ni ar **henbethesda@outlook.com** neu ewch i'r wefan <https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/daucanmlwyddiant-bethesda/>.

Sioe Luniau


Bydd y lluniau sydd wedi cael eu cyflwyno yn cael eu dangos yng Ngardd Tan Tŵr (Annie's Orphans) nos Wener 16 Ebrill a nos Sadwrn 17 Ebrill.



C R O E S A I R

Ar Draws

- 1 Y profiad o 'edrych tuag adref' (3)
- 3 Cyn breswlydd Tŷ Mawr Wybrnant (5)
- 7 Hyll ac annymunol (4)
- 8 Rhan o offeryn llinynnol wedi torri ger Stiniog, ar dy lin efallai (8)
- 9 Digon sur y rhai heb rinwedd na daioni (9)
- 12 Gwella'r ogle i'r synnwyr (6)
- 13 Pwy? Yr un all deithio drwy'r gofod, fel y rhai meddygol (6)
- 15 Dyn llefrith yn y de yn cario un o'r rhain (5,4)
- 18 Gweithred gyffredin mewn gweddi ac addoliad (8)
- 20 Mae ganddo gadair yn y coleg a chae ger Caernarfon (4)
- 21 Stryd yn Llanberis ar gyfer Americanwyr. Tybed ?
- 22 Un goediog yn Eifionydd ac un goch i lyncu bwyd (3)



I Lawr

- 1 Hil a llinach (4)
- 2 "Gwyn a -----, teg ei lun", o'r emyn 'Mawr' (Titus Lewis) (7)
- 3 Yn perthyn i ni (3)
- 4 Pili pala (5)
- 5 Swnio fel anaf John y Cymro wrth geisio tipyn o fara (8)
- 6 Moli awyr yn drefnus i gael gwahanol fathau (8)
- 10 Y ffon fferins pinc ers talwm (5,3)
- 11 Wŷn a enir fesul tri i famogiaid (8)
- 14 '----- canu', y diafol yn y capel (7)
- 16 Offeryn Osian a fu farw eleni (5)
- 17 'Y byd mawr ----', y ddaear i gyd (ymadrodd) (4)
- 19 Mae lan yn dychwelyd i weld bachgen ei chwaer (3)

ATEBION CROESAIR MAWRTH 2021

AR DRAWS 1 Tango, 4 Parma, 10 Dirwest, 11 Wiwer, 12 Arnat, 13 Dirwyon, 15 Allor, 17 Callio, 19 Iachus, 22 Gast, 25 Stodin, 27 Gosod, 29 Union, 30 Bisgedi, 31 Anadl, 32 Addoli

I LAWR 2 Aeron, 3 Gwestai, 5 Arwyr, 6 Mawrygu, 7 Odlau, 8 Stido, 9 Ffrind, 14 Iris, 16 Llogi, 18 Achosion, 20 Atgasedd, 21 Esgus, 23 Anabl, 24 Odrif, 26 Dinod, 28 Steil

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig i beidio ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas !! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

WELSH SLATE
Part of the Breedon Group

Gall patios droi eich gardd yn lle allanol i fyw, i ymlacio, mwynhau neu weithio tu allan



**CLADIO PALMANTAU TOEAU
LLORIAU WALIAU TIRLUNIO**

Mae Welsh Slate ar gael i brynu ar-lein ar www.ukstonedirect.com

Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor Gwynedd, LL57 4YG
Ffôn 01248 600656



OBLAID.CYMRU

**DYMUNA
SIÂN GWENLLIAN
DDWEUD
DIOLCH
O GALON**

**I WEITHWYR ALLWEDDOL
A GWIRFODDOLWYR**

YN YSTOD Y CYFNOD COVID

01286 672076

 **Plaid Cymru
Party of Wales**